

Edwina Hart AC MBE  
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

14 Gorffennaf 2004

Annwyl Edwina

**Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL - 'PRIF FFYRDIO CYDRADDOLDEB YNG  
NGWAITH Y CYNULLIAD' - ADRODDIAD YR ADOLYGIAD POLISI**

Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn falch o gael gosod adroddiad ei adolygiad polisi am 'Brif Ffrydio Cydraddoldeb' gerbron y Cynulliad, ac mae'n edrych ymlaen at gael ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad a'i argymhellion.

Bwriedir i argymhellion yr adroddiad gynorthwyo i brif ffrydio pob un o'r saith agwedd ar gydraddoldeb (hil, rhyw, anabledd, oedran, tueddfryd rhywiol, crefydd a chred, a'r iaith Gymraeg) yng ngwaith y Cynulliad. Gwêl y Gweinidog nad yw'r adroddiad yn cyfeirio'n benodol at y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau cydraddoldeb unigol, a hynny am fod y sefyllfa'n newid yn gyson wrth i'r gwaith o ddatblygu Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd y DU fynd rhagddo. Serch hynny, byddai'r Pwyllgor am weld y mater hwn yn cael ei drafod fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth gydraddoldeb.

Wrth gytuno ar ei adroddiad, mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi nodi nad yw llawer o'i argymhellion yn pennu amserlenni pendant na thargedau penodol o ran yr hyn a gyflawnir. Cydnabyddir mai mater i'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yw sut i ymateb i argymhellion yr adroddiad, a sut i fynd ati i'w gweithredu ar y cyd â Gweinidogion ac adrannau eraill. Er hynny, diben y llythyr hwn yw gofyn i chi anfon cynllun datblygu manwl at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn amlinellu'r hyn y gellir ei gyflawni yn achos pob argymhelliad, gan nodi hefyd erbyn pryd y bwriedir gwneud hynny.

/2....

Gwenda Thomas AC  
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Yn unol â'r protocol ar gyfer ymatebion y Llywodraeth i adroddiadau gan y Pwyllgorau, mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn gobeithio y bydd dadl am yr adroddiad yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref. Byddai'r Pwyllgor wedyn yn disgwyl i'r Llywodraeth ymateb a llunio cynllun datblygu ac amserlen ddangosol ymhen pum wythnos, fan bellaf, i'r ddadl honno.


Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at ystyried ymateb y Llywodraeth i'w adroddiad yn y dyfodol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Gwenda Thomas." The signature is written in a cursive, flowing style.

**Gwenda Thomas AC**  
**CADEIRYDD - Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

Gwenda Thomas AC  
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA



Cynulliad National  
Cenedlaethol Assembly for  
Cymru Wales

## Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal



Adroddiad ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith  
y Cynulliad Cenedlaethol

Gorffennaf 2004



Argraffwyd yn y DU ar bapur sy'n cynnwys 75% o wastraff ôl-ddefnydd a 25% o fwydion coed ECF



# Adroddiad ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol

Gorffennaf 2004



# Cynnwys

	Tudalen
Rhagarweiniad y Cadeirydd	v
Pennod 1 Crynodeb Gweithredol	1
Pennod 2 Y cylch gorchwyl a diffiniadau	5
Pennod 3 Y dulliau a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad	11
Pennod 4 Y sefyllfa statudol	17
Pennod 5 Y sefyllfa gyfredol – y sefyllfa yn y Cynulliad ar hyn o bryd	25
Pennod 6 Sicrhau cynnydd – strategaeth ac arweiniad	31
Pennod 7 Sicrhau cynnydd – pobl	41
Pennod 8 Sicrhau cynnydd – camau ymarferol, dulliau gweithredu: canllawiau a chyngor	51
Pennod 9 Sicrhau cynnydd – monitro a gwerthuso	73
Atodiad A Aelodau'r Pwyllgor	79
Atodiad B Cyfeiriadau	80
Atodiad C Gwybodaeth ddemograffig am weithlu'r Cynulliad a'r cynnydd a wnaed wrth weithio tuag at y targedau	87
Atodiad D Dadansoddiad o ganlyniadau arolwg staff yn ymwneud â chydraddoldeb	91
Atodiad E Manylion am y cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn deddfwrfeydd rhyngwladol	98
Atodiad F Rhestr gyflawn o argymhellion	99





## RHAGARWEINIAD Y CADEIRYDD



Dyma adolygiad polisi cyntaf y Pwyllgor yn yr Ail Gynulliad a'r nod yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes i symud yr agenda cydraddoldeb yn ei blaen yng Nghymru.

Mae'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cynulliad i hybu cydraddoldeb yn unigryw o fewn y Deyrnas Unedig ac mae gan y Pwyllgor rôl hanfodol i'w chwarae yn monitro sut y mae'r ddyletswydd honno yn cael ei chyflawni. Yn y Cynulliad Cyntaf, gwnaeth y Pwyllgor nifer o awgrymiadau i bwyllgorau pwnc a Gweinidogion ynglyn â sut y gallent hybu ac ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn fwy effeithiol ac ymgwymerwyd â nifer o fentrau pwysig ym maes cydraddoldeb. Yr hyn sy'n fwy o her yw sut i sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori yn effeithiol ac yn llawn ym *mhob* rhan o waith y Cynulliad, ac mae'r adolygiad polisi hwn o brif ffrydio wedi galluogi'r Pwyllgor i wneud argymhellion cyffredinol ar sut y gellid cyflawni hyn.

Wrth wneud ei argymhellion mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai proses yw prif ffrydio a bod angen, wrth natur, ymrwymiad ar bob lefel. Efallai na fydd yn broses hawdd bob amser ond mae manteision prif ffrydio yn amlwg. Dylai prif ffrydio cydraddoldeb arwain at well dealltwriaeth o anghenion amrywiol pobl yng Nghymru ac at ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n ymateb i'r anghenion hynny. Gobeithiwn felly nid yn unig y bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried yn llawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ond y bydd yr enghreifftiau o arferion da sy'n bodoli ac a nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu rhannu o fewn yr holl gyrrff cyhoeddus sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae argymhellion yr adroddiad yn seiliedig ar broses o ymgynghori a chasglu gwybodaeth sydd wedi tynnu ar wybodaeth ac arbenigedd ystod eang o gyrrff ac unigolion. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad.

**Gwenda Thomas AC**  
**CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**





**PENNOD 1**

**CRYNODEB GWEITHREDOL**





# PENNOD 1 – CRYNODEB GWEITHREDOL

**1.1** Mae'r adroddiad yn cynrychioli canfyddiadau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn sgil ei adolygiad polisi cyntaf yn yr Ail Gynulliad. Bu'r adolygiad yn ystyried sut y gellir prif ffrydio cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad.

**1.2** Amlinellir cylch gorchwyl yr adolygiad yn yr Ail Bennod ac mae'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal yr adolygiad a'r fethodoleg yn cael eu hamlinellu yn y Drydedd Bennod. Dechreuwyd ar yr adolygiad ym mis Gorffennaf 2003 a chwblhaodd y Pwyllgor y broses o gasglu gwybodaeth ym mis Mawrth 2004.

**1.3** Nid yw prif ffrydio yn nod ynddo'i hun. Proses ydyw a ddylai arwain at well dealltwriaeth o anghenion amrywiol pobl Cymru; datblygu'r polisiau a'r gwasanaethau a fydd yn ymateb i'r anghenion hynny a gwelliant mesuradwy yng nghanlyniadau'r gwasanaeth a phrofiad pobl Cymru.

**1.4** Ceir yn yr adroddiad asesiad y Pwyllgor o berfformiad y Cynulliad yn erbyn y nodau hyn. Mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar sail pedair thema allweddol:

- strategaeth ac arweiniad
- pobl
- camau ymarferol, dulliau gweithredu, canllawiau a chynngor
- monitro a gwerthuso

**1.5** O dan y penawdau hyn mae'r adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol, gan dynnu sylw at arferion da yn ogystal ag amlinellu sut y gall cydraddoldeb gael ei brif ffrydio yn fwy effeithiol.

**1.6** Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ar sut y gellir gwella prif ffrydio cydraddoldeb. Fe'u rhestrir yn llawn yn Atodiad F.





**PENNOD 2**

**Y CYLCH GORCHWYL A DIFFINIADAU**





# PENNOD 2 – Y CYLCH GORCHWYL A DIFFINIADAU

## Y CYLCH GORCHWYL

2.1 Cytunwyd ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad ar brif ffrydio cydraddoldeb yn ein cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2003:

### Y cylch gorchwyl

Ystyried sut y gellir prif ffrydio cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad.

### Y Cefndir

Swyddogaeth sylfaenol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yw archwilio trefniadau'r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth gyflawni ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes, yr egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb. Awgrymodd y Pwyllgor blaenorol sut y gallai pwyllgorau pwnc a Gweinidogion hybu ac ystyried materion cydraddoldeb yn fwy effeithiol ond yn aml roeddent yn sylwadau ad hoc. Byddai dechrau'r Ail Gynulliad yn gyfle da i'r Pwyllgor wneud argymhellion cyffredinol ar sut i brif ffrydio materion yn ymwneud â chydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad.

Gallai'r Pwyllgor ddefnyddio adolygiad tebyg a gynhaliwyd yn yr Alban yn 2002/2003.

## DIFFINIADAU

### Beth yw prif ffrydio?

2.2 Yn rhan o'r ymgynghori ar gyfer yr adolygiad mabwysiadwyd gennym y diffiniad canlynol, cychwynnol, ar gyfer 'prif ffrydio':

*"Mae 'prif ffrydio' cydraddoldeb yn ymwneud ag integreiddio egwyddorion, strategaethau ac arferion cyfle cyfartal yng ngwaith bob dydd y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill. Mae'n golygu y dylid ystyried materion cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf, a hynny fel rhan annatod o'r*

*gwaith o lunio polisi a darparu gwasanaethau. Dylai'r nod o sicrhau cydraddoldeb fod yn sylfaen i bob agwedd ar waith pob unigolyn sy'n gweithio mewn sefydliad wrth iddynt gyflawni eu busnes."*

**2.3** Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn cefnogi'r diffiniad at ei gilydd ac ystyrient ei fod yn gyson â'r hyn a fabwysiadwyd gan y GIG a llywodraeth leol yng Nghymru a'r Comisiwn Ewropeaidd. Cafwyd nifer o awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r diffiniad, yn arbennig drwy gynnwys cyfeiriad at fesur gwelliannau a gwerthuso cynnydd. Ceir i ddilyn y diffiniad diwygiedig, fel y'i diwygiwyd yng ngoleuni sylwadau a dderbyniwyd.

### **Diffiniad o 'brif ffrydio'**

"Mae 'prif ffrydio' cydraddoldeb yn ymwneud ag integreiddio parch at amrywiaeth ac egwyddorion, strategaethau ac arferion cyfle cyfartal yng ngwaith bob dydd y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill. Mae'n golygu y dylid ystyried materion cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf, a hynny fel rhan annatod o'r gwaith o lunio polisi a darparu gwasanaethau. Dylai'r nod o sicrhau cydraddoldeb fod yn sylfaen i bob agwedd ar waith pob unigolyn sy'n gweithio mewn sefydliad. Dylai llwyddiant prif ffrydio gael ei fesur drwy werthuso a fu gostyngiad mewn anghydraddoldeb."

**Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r diffiniad uchod o brif ffrydio.**

### **Beth yw cydraddoldeb?**

**2.4** Yn ystod ein sesiynau casglu tystiolaeth mewn perthynas â'r adolygiad, ac wrth drafod ag eraill, daeth yn amlwg bod barn yr Aelodau wedi'i seilio ar wahanol ddiffiniadau o gydraddoldeb.

**2.5** Tra cydnabyddwn fod i bawb yr hawl i'w farn ei hun ar oblygiadau materion unigol o safbwynt cydraddoldeb, teimlwyd y byddai cynnig diffiniad syml o'r hyn yr ydym ni, y Pwyllgor, yn ei olygu wrth sôn am gydraddoldeb, yn ddefnyddiol i'r rhai hynny sy'n darllen yr adroddiad hwn.

## Diffiniad o gydraddoldeb

Mae cydraddoldeb, yng nghyswllt yr adroddiad hwn, yn ymwneud â thrin pobl yn gyfartal o ran statws, hawliau a chyfleoedd drwy set o bolisïau a gweithredoedd, gyda'r nod o sicrhau cydraddoldeb i bawb.

## Beth sy'n dod o fewn cwmpas yr adroddiad hwn?

**2.6** Mae a wnelo'r adroddiad hwn â phrif ffrydio cydraddoldeb yn y polisïau a ddyfeisiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo.

**2.7** Bwriedir iddo fod yn berthnasol i waith Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Cyrff y GIG ac awdurdodau lleol, ein Pwyllgor ein hunain, Pwyllgorau eraill y Cynulliad a Chyfarfod Llawn y Cynulliad.





## **PENNOD 3**

# **Y DULLIAU A'R FETHODOLEG A DDEFNYDDIWYD AR GYFER YR ADOLYGIAD**





## PENNOD 3 – Y DULLIAU A'R FETHODOLEG A DDEFNYDDIWDYD AR GYFER YR ADOLYGIAD

**3.1** Defnyddiwyd nifer o dechnegau gwahanol wrth gasglu tystiolaeth. Mae'r prif ddulliau a ddefnyddiwyd wedi'u crynhoi isod:

### Sylwadau ysgrifenedig

**3.2** Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori yn gwahodd sylwadau ysgrifenedig ar gyfer yr adolygiad ym mis Gorffennaf 2003. Derbyniwyd 25 o ymatebion yn ystod cyfnod yr ymgynghori ond rydym wedi parhau i groesawu sylwadau ysgrifenedig drwy gydol yr adolygiad ar ei hyd.

### Sesiynau tystiolaeth

**3.3** Cynhaliwyd cyfres o sesiynau casglu tystiolaeth er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad. Cafwyd trafodaethau gyda'r canlynol:

- Yr Athro Teresa Rees, arbenigwrwaig flaenllaw ym maes cydraddoldeb
- Uned Polisi Strategol y Cynulliad ar erfyn integreiddio polisi'r Cynulliad
- Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddog cydraddoldeb awdurdod lleol ynglyn â Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol
- Y Grŵp Cyllidebau ar Sail Rhyw, Cymru ynglŷn â chyllidebau ar sail rhyw
- Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a nifer o gyrff sy'n gysylltiedig â'r Grŵp Cynghori ar Fynediad i Adeilad Newydd y Cynulliad ynglŷn â'r broses o ymgynghori ynghylch materion yn ymwneud â mynediad i adeilad newydd y Cynulliad
- Y Comisiwn Archwilio ar fonitro a gwerthuso cynnydd ar hybu cydraddoldeb
- Nifer o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG



## Y broses o lunio'r adroddiad blynyddol

**3.4** Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Cynulliad "wneud trefniadau priodol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb wrth gyflawni ei swyddogaethau", ac mae gofyn i'r Cynulliad baratoi adroddiad ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar yr hyn a wnaed i gyflawni'r ddyletswydd hon.

**3.5** Ystyriwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-2003 yn ein cyfarfodydd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2003, cyn eu trafod mewn Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr 2004. Cafwyd yn yr Adroddiad Blynyddol wybodaeth am weithgareddau yn ymwneud â chydraddoldeb ar draws y Cynulliad.

## Gwaith arall

**3.6** Trwy lawer o'n gwaith mewn meysydd eraill rhoddwyd, yn anuniongyrchol, dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad. Er enghraifft, ystyriwyd gennym faterion yn ymwneud â dangosyddion cydraddoldeb yn ein trafodaeth â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar yr adolygiad canol tymor o gronfeydd strwythurol. Ystyriwyd hefyd Gynllun Cydraddoldeb Hiliol drafft y Cynulliad sy'n rhoi enghraifft o un mecanwaith ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb. Edrychwyd hefyd ar sut y gallai amrywiaeth mewn awdurdodau lleol ac ymhlith penodiadau cyhoeddus gael ei gwella.

## Ymweliadau

**3.7** Ymwelwyd â Grŵp Sefydliad Gellideg ym Merthyr Tudful ym mis Mawrth 2004 er mwyn gweld sut mae cymuned leol wedi defnyddio dulliau gwerthuso cyfranogol ac asesiad o'r anghenion ar sail rhyw i ganfod, ac yna, mynd i'r afael â'r materion hynny sy'n peri'r pryder mwyaf i'r gymuned.

**3.8** Rydym yn ddiolchgar iawn i'r preswylwyr a'r gweithwyr cymuned am roi o'u hamser i rannu eu profiadau â ni.





## Adolygiad o Bwyllgorau eraill

**3.9** Ysgrifennwyd at Bwyllgorau eraill y Cynulliad i ofyn iddynt ateb rhai cwestiynau byr am y modd yr oeddent yn rhoi ystyriaeth i faterion yn ymwneud â chydreddoldeb yn eu gwaith. Lluniwyd crynodeb o'r canlyniadau ar ffurf papur a ystyriwyd yn ein cyfarfod ar 5 Chwefror 2004.

## Ystyried deunydd sydd eisoes yn bod a gwaith blaenorol y Pwyllgor

**3.10** Rydym hefyd wedi defnyddio'r cyfoeth o astudiaethau ac adroddiadau blaenorol ar brif ffrydio cydraddoldeb a'r gwaith helaeth a wnaeth y Pwyllgor hwn yn y Cynulliad Cyntaf.

**3.11** Yn arbennig, Adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig 'Dyletswydd Diamod (An Absolute Duty)'; adroddiad 'Codi Pob Llais (Lifting Every Voice)'; a gwaith ar yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal a'i gwerthusiad.





**PENNOD 4**

**Y SEFYLLFA STATUDOL**



## PENNOD 4 – Y SEFYLLFA STATUDOL

### DEDDF LLYWODRAETH CYMRU - ADRAN 48 AC ADRAN 120

**4.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru:

(Rhaid i'r Cynulliad) *"wneud trefniadau priodol i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb wrth gyflawni ei swyddogaethau",*

**(Deddf Llywodraeth Cymru, Adran 120)**

**4.2** Prif swyddogaeth ein Pwyllgor yw archwilio llwyddiant y Cynulliad yn cyflawni'r ddyletswydd honno a chredwn ei bod yn fecanwaith grymus i wella amgylchiadau pobl Cymru – yr argyhoeddiad hwn oedd y man cychwyn ar gyfer yr adolygiad hwn.

### DEDDFWRIAETH CYDRADDOLDEB YN YMWNEUD Â LLINYNNAU PENODOL

#### *Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995*

**4.3** Bwriedir i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd roi terfyn ar y gwahaniaethu y mae nifer o bobl anabl yn ei ddioddef. Mae'n diogelu pobl anabl ym meysydd:

- cyflogaeth
- mynediad at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau
- rheoli, prynu neu rentu tir neu eiddo
- addysg

**4.4** O dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, mae gwahaniaethu yn digwydd:

- lle bo'r person anabl yn cael ei drin yn llai ffafriol na rhywun arall

- Lle bo'r driniaeth yn cael ei rhoi am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd y person hwnnw
- Lle na ellir cyfiawnhau'r driniaeth

#### 4.5 Mae gwahaniaethu hefyd yn digwydd:


- Lle bo methiant i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer person sy'n anabl
- Lle na ellir cyfiawnhau'r methiant hwnnw

4.6 Daeth y Ddeddf i rym mewn gwahanol gamau. Bydd adrannau pellach, yn rhoi hawliau i hwyluso mynediad at nwyddau a gwasanaethau, yn dod i rym ym mis Hydref 2004.

### Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000

4.7 Daeth y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 i rym ar 2 Ebrill 2001. Diwygiwyd Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 gan y Ddeddf a chryfhawyd ei pherthnasedd i awdurdodau lleol mewn nifer o ffyrdd pwysig:

- Mae'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd yn ymestyn cwmpas Deddf 1976 er mwyn cwmpasu meysydd a oedd gynt wedi'u heithrio ac mae'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon i awdurdodau lleol wahaniaethu ar sail hiliol wrth gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau
- Mae yn ei gwneud hi'n ddyletswydd statudol gyffredinol ar nifer o awdurdodau cyhoeddus i wneud fel a ganlyn:
  - dileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon
  - hybu cyfle cyfartal
  - hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol
- Mae'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd hefyd yn rhoi i'r Ysgrifennydd Cartref y pŵer i wneud Gorchmynion yn pennu dyletswyddau penodol. Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yr awdurdod i orfodi cyflawni'r dyletswyddau hyn a gall gyflwyno rhybuddion cydymffurfio, ynghyd â gorchmynion llys, os bydd angen
- Mae yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol Iunio Cynllun Cydraddoldeb Hiliol



**4.8** Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu nifer o ddyletswyddau penodol mewn perthynas â chyflogaeth, polisi a darparu gwasanaethau ac addysg.

### **Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975**

**4.9** Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 yn gwahardd gwahaniaethu ar sail rhyw yn erbyn unigolion ym meysydd cyflogaeth, addysg, darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau ac wrth waredu neu reoli eiddo.

**4.10** Mae hefyd yn gwahardd gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n briod ym maes cyflogaeth.

**4.11** Gwaherddir trin rhywun yn annheg am iddo ddefnyddio ei hawliau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw neu'r Ddeddf Cyflog Cyfartal.

**4.12** Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw yn berthnasol i fenywod a dynion o bob oed, gan gynnwys plant.


**4.13** Mae rhai eithriadau cyffredinol o ran pryd y mae gwahaniaethu ar sail rhyw yn anghyfreithlon. Dyma'r prif eithriadau:

- Pan fo elusen yn rhoi buddiant i un rhyw yn unig, yn unol â'i hofferyn elusennol
- Pan fo pobl yn cystadlu mewn chwaraeon lle bo'r fenyw nodweddiadol o dan anfantais o'i chymharu â'r dyn nodweddiadol oherwydd cryfder corfforol, stamina neu gorffolaeth
- Mewn yswiriant lle bo'r driniaeth wahaniaethol yn ymwneud yn rhesymol â data actiwaraid neu ddata arall

### **Deddf Cyflog Cyfartal 1970**

**4.14** Mae'r Ddeddf Cyflog Cyfartal 1970 yn rhoi i unigolyn yr hawl i'r un cyflog a buddiannau cytundebol â pherson o'r rhyw arall sydd wedi'i gyflogi yn yr un modd, lle bo'r dyn a'r fenyw yn gwneud:

- Gwaith tebyg; neu
- Gwaith y dywedir ei fod yn gyfatebol yn unol ag astudiaeth lle gwnaed gwerthusiad dadansoddol o'r swydd; neu
- Waith y profwyd ei fod o werth cyfatebol



**4.15** Nid yw'n ofynnol i'r cyflogwr roi yr un cyflog a buddiannau os gellir profi bod y gwahaniaeth yn y cyflog neu'r buddiannau yn seiliedig ar reswm nad yw'n gysylltiedig â rhyw.

### **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

**4.16** Mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn gosod yr egwyddor, yng nghydestun cynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylai'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg gael eu trin yn gyfartal. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r sector cyhoeddus drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

**4.17** Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus weithredu cynlluniau iaith Gymraeg wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

### **Cyfarwyddebau Hil a Chyflogaeth Erthygl 13 Ewrop**

**4.18** Yn ôl Cyfarwyddebau Hil a Chyflogaeth Erthygl 13 Ewrop mae'n ofynnol i aelod-wladwriaethau'r UE gyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu gwahaniaethu annheg ar sail hil, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, anabled ac oed ym meysydd cyflogaeth a hyfforddiant.

**4.19** Mae deddfwriaeth i weithredu agweddau ar y Cyfarwyddebau hyn yn cael ei pharatoi.

### **Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**

**4.20** O ganlyniad i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ymgorfforir hawliau sylfaenol yn rhan o'r gyfraith ryngwladol. Mae rhai hawliau'r Confensiwn yn absoliwt ac mae gan eraill gyfyngiadau arnynt, ond mae'r prif rai yn cynnwys y canlynol:

- yr hawl i fyw
- gwaharddiad ar boenydio
- gwaharddiad ar gaethwasiaeth a gorfodaeth i weithio
- yr hawl i ryddid a diogelwch



- yr hawl i achos teg
- gwaharddiad ar gosb y tu allan i'r gyfraith
- yr hawl i ddisgwyl parch i fywyd preifat a bywyd teuluol
- rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
- rhyddid mynegiant
- rhyddid i ymgynnull a ffurfio cymdeithas
- yr hawl i briodi
- gwaharddiad ar wahaniaethu

**4.21** Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn trosi'r Confensiwn yn gyfraith ddomestig. Dyma'r tair prif effaith:

- mae'n anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus, megis adran o'r Llywodraeth, awdurdod lleol neu'r heddlu, dorri hawliau'r Confensiwn oni bai y golygai Deddf Seneddol na allai fod wedi gweithredu'n wahanol
- gellir ymdrin ag achosion mewn llys neu dribiwnlys yn y Deyrnas Unedig. Cyn hyn, roedd yn rhaid i bobl a deimlai bod eu hawliau o dan y Confensiwn wedi'u tanseilio fynd â'u hachos i Lys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbourg
- cyn belled ag y bo modd, rhaid rhoi i holl ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig ystyr sy'n gweddu i hawliau'r Confensiwn

## **Cymru: Gwlad Well – Agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru mis Medi 2003**

**4.22** Mae Cymru: Gwlad Well – agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Medi 2003 yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ei rhaglen. Ceir ynddi'r cyfeiriad penodol hwn at gydraddoldeb:

**"Cydraddoldeb.** *Byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau, cysylltiadau hiliol da a chydraddoldeb hiliol ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethau ar sail oedran ac anabledd. Rydym am i'r bobl hynny sydd mewn bywyd cyhoeddus adlewyrchu holl amrywiaeth y boblogaeth. Byddwn yn cydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus."*





## **PENNOD 5**

# **Y SEFYLLFA GYFREDOL – Y SEFYLLFA YN Y CYNULLIAD AR HYN O BRYD**



# PENNOD 5 – Y SEFYLLFA GYFREDOL – Y SEFYLLFA YN Y CYNULLIAD AR HYN O BRYD

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

**5.1** Nid yw prif ffrydio yn nod ynddo'i hun. Proses ydyw a ddylai arwain at well dealltwriaeth o anghenion amrywiol pobl Cymru; datblygu polisiau a gwasanaethau a fydd yn ymateb i'r anghenion hynny a gwelliant mesuradwy yng nghanlyniadau gwasanaethau a phrofiad pobl Cymru.

**5.2** Ceir yn yr adroddiad ein hasesiad o berfformiad y Cynulliad yn erbyn y nodau hyn. Mae'r adroddiad wedi'i lunio ar sail pedair thema allweddol:

- strategaeth ac arweiniad
- pobl
- camau ymarferol, dulliau gweithredu, canllawiau a chyngor
- monitro a gwerthuso

**5.3** O dan y penawdau hyn ceisiwyd amlinellu'r sefyllfa gyfredol, gan dynnu sylw at arferion da yn ogystal ag amlinellu sut y credwn y gall cydraddoldeb gael ei brif ffrydio yn fwy effeithiol. Ceir yn yr adran sy'n dilyn orolwg mwy cyffredinol o'r sefyllfa mewn perthynas â phrif ffrydio cydraddoldeb yn y Cynulliad.

## Gorolwg

**5.4** Cydraddoldeb yw un o themâu trawsbynciol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gyfer yr adolygiad hwn, rhagdybir yn gyffredinol y rhoddir proffil uwch i faterion yn ymwneud â chydaddoldeb yma o'i gymharu â sefydliadau eraill.

**Ymatebion i'r ymgynghoriad ar ba mor effeithiol y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi ystyriaeth i faterion yn ymwneud â chydaddoldeb**

O'n persbectif ni, mae tystiolaeth amlwg bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi ystyriaeth i faterion yn ymwneud â chydaddoldeb yn eu gwaith ar hyn o bryd. Mae enghreifftiau

o hyn yn amlwg i'w gweld yn y gwaith sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg a hefyd y gwaith sy'n gysylltiedig â sicrhau bod gwasanaethau GIG o fewn cyrraedd pobl anabl."

#### **Ymateb i'r ymgynghoriad gan Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg**

"Y llynedd, aeth y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC), y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) ati i gomisiynu ymchwil ar thema debyg. Cyhoeddwyd y canlyniadau yn y ddogfen 'Dyletswydd Diamod: Cyfleoedd Cyfartal a Chynulliad Cenedlaethol Cymru'. Dangosodd ein hymchwil bod dyletswydd y Cynulliad i hybu cydraddoldeb yn ysgogydd pwysig i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb yn eu gwaith.

Gyda dyletswydd y Cynulliad i hybu cydraddoldeb yn sail i raglenni gwaith sicrhawyd nifer o lwyddiannau. Er enghraifft:

- Hybu cyflog cyfartal yn y sector cyhoeddus
- Cyllido rhwydweithiau ymgynghorol ar gyfer grwpiau lleiafrifol
- Defnyddio cydymffurfiaeth i gontractau i hybu cydraddoldeb
- Creu Comisiynydd Plant
- Integreiddio cydraddoldeb yn rhan o gwricwlwm cenedlaethol Cymru."


#### **Ymateb i'r ymgynghoriad gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal**

**5.5** Fodd bynnag, tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghori sylw hefyd at gyfyngiadau gwaith y Cynulliad ar gydraddoldeb hyd yn hyn, yn arbennig diffyg strategaeth gydgyssylltiedig ac anghysondebau ar draws y meysydd polisi gwahanol.

#### **Ymatebion i'r ymgynghoriad ar ba mor effeithiol y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi ystyriaeth i faterion yn ymwneud â chydraddoldeb**

"Mae dyletswyddau'r Cynulliad mewn perthynas â chydraddoldeb yn ddefnyddiol. Maent yn gyfle i osod agenda bolisi a all, o bosib, arwain at reidrydd ar Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i weithredu. Mae potensial llawn y gofynion hyn eto i'w wireddu, fodd bynnag. O ran gosod yr hanfodion strategol ar gyfer Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gallai cydraddoldeb ac amrywiaeth gael eu nodi'n fwy clir o lawer yn y canllawiau strategol. Yn ogystal â hyn, gallai'r Cynulliad fynnu cael mwy o dystiolaeth o ran cymhwysedd a gweithredu yn hyn o beth."

#### **Ymateb i'r ymgynghoriad gan Awdurdod Datblygu Cymru**



"Yr ateb gonest yw nad yw'n amlwg ym mhob agwedd ar waith fel mater o drefn. Mae'n amlwg bod mentrau penodol wedi'u datblygu ond, o gyfeirio'n ôl at y diffiniad, nid yw'n amlwg bod y materion hyn yn cael eu hystyried ar y cychwyn cyntaf."

#### Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro

**5.6** Rydym yn cytuno â'r cadarnhad amodol hwn. Mae'r Cynulliad wedi bod yn gyfrifol am rai mentrau positif iawn ond mae angen gwneud mwy i ledaenu'r arferion da hyn a sicrhau bod prif ffrydio yn cael ei droi'n realiti.

**5.7** Cafwyd rhai siomedigaethau amlwg hefyd. Ddwy flynedd ar ôl y dyddiad a bennwyd ar gyfer sefydlu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol nid yw'r Cynulliad wedi cwblhau eto gynllun sy'n cydymffurfio.

**5.8** Cyhoeddwyd yn ddiweddar ganlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd ymhlith staff y Cynulliad yn 2003 a dangoswyd bod 79% yn cytuno neu'n cytuno'n bendant bod eu *"[h]is-adran yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb yn ei pholisïau a'i gwasanaethau"*, nad oedd 17% yn cytuno nac yn anghytuno a bod 5% yn anghytuno neu'n anghytuno'n bendant.

**5.9** Fodd bynnag, fel y dengys y tablau yn Atodiad D, roedd y canlyniadau ar gyfer aelodau'r staff o gefndiroedd Asiaidd neu gymysg yn llai positif, gyda dim ond 63% a 76% yn y drefn honno yn cytuno neu'n cytuno'n bendant â'r datganiad. Yn yr un modd, ymhlith staff a oedd yn anabl dim ond 70% a gytunai neu a gytunai'n bendant bod eu *"[h]is-adran yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb yn ei pholisïau a'i gwasanaethau"*. (Nid oes data ar gael oddi wrth grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gan fod y sampl yn rhy fach).

**5.10** Pan ofynnwyd i'r holl staff ystyried y datganiad *"mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i roi gwerth ar amrywiaeth ymhlith ei weithwyr"* roedd 54% yn cytuno neu'n cytuno'n bendant; nid oedd 34% naill ai'n cytuno neu'n anghytuno ac roedd 12% yn anghytuno neu'n anghytuno'n bendant.

**5.11** Mae canlyniadau allweddol yr arolwg yn ymwneud â chydraddoldeb ac wedi'u rhannu yn wahanol grwpiau o ran grŵp oed; rhyw; ethnigrwydd ac anabled fel y nodwyd yn Atodiad D.







**PENNOD 6**

**SICRHAU CYNNYDD – STRATEGAETH AC  
ARWEINIAD**



# PENNOD 6 – SICRHAU CYNNYDD – STRATEGAETH AC ARWEINIAD

## Y Strategaeth

**6.1** Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynulliad strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb ac, yn ein barn ni, mae hyn yn llesteirio ymdrechion y Cynulliad mewn perthynas â phrif ffrydio cydraddoldeb.

**6.2** Yr argraff amlwg a gafwyd o Bedwerydd Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb, a ystyriwyd gennym ym mis Tachwedd 2003, oedd bod llawer o weithgarwch positif yn mynd yn ei flaen ond heb fawr ddim cyfeiriad strategol. Ni chafwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ffocws ar amcanion ac roedd cryn amrywiaeth o fewn y sefydliad. Yr ymdeimlad a gafwyd oedd bod pobl at ei gilydd yn ystyried bod cydraddoldeb yn bwysig, a'u bod yn gwybod bod angen iddynt fod yn rhagweithiol, ond nad ydynt bob amser yn sicr sut i gymhwyso egwyddorion prif ffrydio i'w maes polisi arbennig hwy.

**6.3** Mynegwyd hyn hefyd yn yr ymatebion i'n cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill y Cynulliad yn rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb yn eu gwaith. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn cydnabod yn gyffredinol bod cydraddoldeb yn bwysig ond ni chafwyd nifer o enghreifftiau penodol ac yn aml fe'u gwelwyd yn methu gwaith allweddol yn ymwneud â chydraddoldeb a wnaed gan y pwyllgor perthnasol. Tynnwyd sylw hefyd mewn nifer o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghori at y problemau a gâi eu hachosi gan ddiffyg strategaeth :

*"Mae cyfle cyfartal wedi'i fabwysiadu fel un o'r themâu trawsbynciol ar gyfer gwaith y Cynulliad Cenedlaethol, fodd bynnag nid yw'r Cynulliad wedi datblygu eto ei strategaeth glir ei hun ar gyfer cydraddoldeb yng Nghymru gan roi eglurhad a gosod ei weledigaeth ei hun o'r hyn y mae cydraddoldeb yn ei olygu yng nghyd-destun Cymru. Gallai strategaeth o'r fath bennu materion o flaenoriaeth ar gyfer y Cynulliad yn nhermau hybu cydraddoldeb, gosod nodau ac amcanion cymdeithasol i'w cyflawni. Yn ychwanegol at hynny, gallai cyrff eraill yn y sector cyhoeddus fabwysiadu ac adlewyrchu amcanion o'r fath, fel y bo'n briodol, yn eu gwaith eu hunain ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan*

*sicrhau bod y strategaeth yn ehangach ac yn fwy effeithiol yn nhermau sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru. Heb nodi amcanion clir a phenodol a llwybr pendant i'w gymryd er mwyn gwireddu hyn oll, gall ymdrechion i brif ffrydio cydraddoldeb drwy waith y Cynulliad fod yn ad hoc ac yn anghyson."*


**Ymateb i'r ymgynghoriad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

**6.4** Felly, os nad oes gan y Cynulliad strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb, beth sydd wrth wraidd y broses o ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau? Mewn gwirionedd mae nifer o strategaethau sectoraidd neu benodol ar gydraddoldeb y dylai'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lunio polisi fod yn ymateb iddynt, er enghraifft:

- Amryw ymrwymadau deddfwriaethol – a amlinellwyd ym Mhennod 4
- Cymru: Gwlad Well – agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad sy'n cynnwys ymrwymiad penodol i gydraddoldeb
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol – sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd
- Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog a Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad
- Polisiâu adnoddau dynol mewn perthynas â recriwtio a chadw staff.

**6.5** Mae'r cyfan uchod yn ddefnyddiol ond nid ydynt yn ddigon i glymu pob llinyn sy'n ymwneud â chydraddoldeb ynghlwm wrth y broses o lunio polisi yn gyffredinol. Er enghraifft, dim ond dyrnaid o gyfeiriadau yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n cyfeirio'n benodol at waith sydd ar droed yn rhoi'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar waith, eto i gyd mae pob rhan o'r Cynulliad yn ymrwymedig i gymryd camau o dan y Cynllun. Roeddem yn siomedig hefyd i nodi nad yw'r cynlluniau ar gyfer Menter Reoli'r Sector Cyhoeddus, menter rydym yn ei chroesawu, yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at adeiladu sgiliau a gwybodaeth yn ymwneud â chydraddoldeb. Mae diffyg strategaeth gyffredinol hefyd yn ei gwneud hi'n anodd iawn i fonitro a gwerthuso – trafodir hyn yn fwy manwl ym Mhennod 9.

**6.6** Mae'r sefyllfa yn hollol groes i rai agweddau ar lywodraeth leol lle mae Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol yn cynnig mecanwaith i'w ddefnyddio i ddatblygu strategaeth gydgyssylltiedig ar gyfer cydraddoldeb, yn seiliedig ar asesiad o'r effaith a thystiolaeth. Eglurodd Denise Dewsnap, Rheolwr Cydraddoldeb Cyngor Bwrdeistref Wrecsam, bod y Safon Cydraddoldeb yn ei hawdurdod lleol hi wedi cynnig fframwaith strategol a ymdriniai â phob un o'r llinynnau cydraddoldeb a'r gwaith o



ddatblygu cynllun cydraddoldeb hiliol felly nid oeddent yn ceisio eu cyflawni oll ar wahân. Trafodir y Safon Cydraddoldeb yn fwy manwl ym Mhennod 8.

## Sut y dylai strategaeth cydraddoldeb edrych?

**6.7** Rhaid i strategaeth cydraddoldeb fod yn ddogfen sy'n ddefnyddiol ac yn hawdd ei defnyddio. Dylai prif ffrydio fod yn ganolog i'r ddogfen a sicrhau, yn hytrach na bod yn un ddogfen arall i'w chwblhau unwaith y flwyddyn, ei bod yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac yn ystyried goblygiadau mater polisi penodol o safbwynt cydraddoldeb yn niwylliant y sefydliad.

**6.8** Ni fyddem am fod yn rhy orchmynnol ynghylch ei ffurf ond awgrymwn y dylai fynd i'r afael â'r canlynol:

- Datganiad o'r weledigaeth ar gyfer cydraddoldeb yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru – ni ddylai'r strategaeth fod yn ddamcaniaethol ond dylai anelu at gyflwyno gwelliannau mesuradwy
- Dylid cydnabod yr amryw ymrwymadau cyfreithiol ar y Cynulliad a nodi'r camau penodol y dylid eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â hwy
- Cynnwys amcanion a chanlyniadau clir, mesuradwy
- Ymgais, cyn belled ag y bo modd, i sicrhau bod yr holl linyddau cydraddoldeb yn cael yr un ystyriaeth â'r rheini â chefnogaeth gyfreithiol gryfach
- Eglurder ynglyn â'r hyn a ddisgwylir gan bob rhan o'r Cynulliad a sut y dylent fynd o'i chwmpas hi
- Rhaid i hyn oll gael ei gefnogi gan gyngor a chanllawiau cynhwysfawr a hygyrch

### **Arferion da - prif ffrydio'r iaith Gymraeg**

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei Chynllun Iaith Gymraeg ym mis Hydref 2002. Bwriad Uned yr Iaith Gymraeg yw hwyluso gweithredu a monitro'r cynllun. Mae'r Uned yn cynnig cyngor a chanllawiau cyffredinol ac yn ymateb i ymholiadau gan swyddogion yn is-adrannau eraill y Cynulliad. Roedd wedi cynhyrchu set o ganllawiau ysgrifenedig ar wahanol agweddau ar y Cynllun sydd hefyd ar gael ar safle mewnwyd cynhwysfawr Uned yr Iaith Gymraeg.

Mae'r Uned wedi cynhyrchu cyngor ar brif ffrydio ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac is-adrannau'r Cynulliad. Bwriad

y cyngor yw cynorthwyo Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i gynhyrchu strategaeth prif ffrwd flynyddol ar gyfer yr iaith Gymraeg sy'n ofyniad wedi'i nodi yn y llythyr a gyhoeddwyd gan swyddfa Cydymffurfio'r Cynulliad i Brif Swyddogion Gweithredol yr holl Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Yn yr un modd, mae'r cyngor i is-adrannau'r Cynulliad yn cynorthwyo â'r broses o gynhyrchu Cynllun Gweithredu iaith Gymraeg sy'n ofynnol gan bob is-adran yn rhan o'i Chynllun Is-adrannol blynyddol. Mae'r nodyn cyngor ar brif ffrydio yn cynnwys dewislen eang sy'n ymdrin â materion yn amrywio o gaffael a chyllid i reoli perfformiad ac arolygu ac archwilio.

Crëwyd rhwydwaith o Gyd-drefnyddion Gwasanaeth Dwyieithog. Mae gan bob Adran yn y Cynulliad gyd-drefnydd ac mae'r Uned yn cadeirio cyfarfodydd o'r Gyd-drefnyddion bob deufis. Rôl y cyd-drefnydd yw hyrwyddo gweithredu a monitro'r Cynllun o fewn eu Hadrannau, cyfryngu er mwyn trosglwyddo gwybodaeth rhwng yr Uned a'r adrannau, a gweithredu fel ffynhonnell o arbenigedd o fewn yr Adrannau ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth ynglyn â'r Cynllun. Mae Bwrdd Gweithredol y Cynulliad yn awr yn cynnwys cyfarwyddwr a gafodd ei benodi'n Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg.

Mae'r Uned yn gyfrifol am fonitro'n flynyddol gydymffurfiaeth ag iaith Pawb a Chynllun yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gydymffurfiaeth yn cael ei ystyried mewn cyfarfod llawn erbyn mis Gorffennaf 2004.

**Argymhelliad 2:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb. Dylai'r Strategaeth gael ei hadolygu'n rheolaidd fel y gall ymateb i lefelau cynyddol o ddarpariaeth a materion newydd yn ymwneud â chydraddoldeb.

**6.9** Credwn fod fframwaith strategol o'r fath, yn ymwneud â'r holl linyddau cydraddoldeb, yn hanfodol. Yn absenoldeb hynny, mae'r gwaith heb ei gydgyssylltu ac yn aml yn gwneud dim ond ymateb i'r fenter ddiweddaraf. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion i'n ymgynghoriad at berygl 'llesgedd o ganlyniad i gyflwyno mentrau di-ri' gyda chyrff cyhoeddus yn ymateb i fentrau newydd, megis datblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, ac yn colli golwg ar flaenoriaethau blaenorol, megis cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae'r broblem yn cael ei dwysáu gan gymhlethdod y ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb.

## Llesgedd o ganlyniad i gyflwyno mentrau di-ri – diagnosis y Comisiwn Archwilio

Yn ei adroddiad 'Human Rights: Improving public service delivery' dywedodd y Comisiwn Archwilio fod y gwaith ar brif ffrydio gweithredu'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi denu ymateb gan 44 y cant o'r cyrff cyhoeddus a archwiliwyd ganddynt, a bod hyn wedi codi i 60 y cant yn y sector iechyd. Noda'r adroddiad "where progress has been made it had often stopped because of the need to respond to competing priorities".

A'r adroddiad yn ei flaen:

*"It is often the case that public bodies will review the same policies not once but twice for both sets of legislation and will probably do so again for the new employment directives for age, religion and sexual orientation. There is scope to improve service delivery if better links are made between the various pieces of legislation. However, this situation has not been helped by the complexities of the current equalities structure and legislative framework."*

**6.10** Mae cymhlethdod y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb a'r anghyfartaledd o safbwynt dylanwad deddfwriaethol y tu ôl i'r gwahanol linyddau cydraddoldeb o reidrwydd yn arwain at densiynau wrth gyflwyno cydraddoldeb. Gwnaethom ein safbwynt ar yr angen i gydgyfnerthu'r ddeddfwriaeth gyfredol ar gydraddoldeb yn glir yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar sefydlu un corff cydraddoldeb. Credwn fod y ddadl o blaid un ddeddf cydraddoldeb yn sylfaen i holl waith y Comisiwn arfaethedig ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn un gref. Rydym yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hyn ond byddwn yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad barhau i ddadlau o blaid hyn.

**Argymhelliad 3:** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i bwysu i ddatblygu un ddeddf cydraddoldeb a fydd yn sylfaen i holl waith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

### Y dull cyfredol

**6.11** Lle bo'r Cynulliad wedi cymryd rhan arweiniol ar fater yn ymwneud â chydraddoldeb aeth ati i geisio cael trefn ar y sefyllfa yn fewnol cyn annog newidiadau tebyg yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Mae'r ymgyrch cyfle cyfartal yn enghraifft glasurol o hyn (gweler y testun yn y blwch am fwy o wybodaeth).

## Cyflog Cyfartal – enghraifft o ‘gael trefn ar eich tŷ eich hun’

Dechreuodd y Cynulliad gynnal archwiliadau ar gyflogau ei staff ei hun yn 2000. Canlyniad yr archwiliadau hyn oedd darganfod bwlch yn y cyflog rhwng dynion a menywod. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cytunodd y Cynulliad i gytundeb cyflog dros nifer o flynyddoedd gyda chynnydd yn y cyflog wedi'i warantu, cyn belled ag y bo'r perfformiad yn foddhaol. Yn rhan o'r cytundeb hefyd oedd darpariaethau eraill, er enghraifft, diogelu'r cynnydd yn y cyflog petai toriad yng ngyrfa'r unigolyn, er mwyn sicrhau na fydd y bwlch yn y cyflog yn mynd yn fwy eto.

Mae'r gwaith wedi'i ganmol i raddau helaeth ac enillodd y Cynulliad Wobr Castle ar gyfer 'Cyflogwyr sy'n arwain eu sector drwy hyrwyddo cyfle cyfartal a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyflog cyfartal'. Cafodd y beirniaid argraff dda o'r "*cynnydd a wnaed o ran cydraddoldeb a'r gwahaniaeth amlwg i leihau'r bwlch cyflog o 10% i 8%*".


Mae'r Cynulliad wedi ceisio annog y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddilyn ei esiampl. Gofynnwyd i Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a chyrrff y GIG i gyd gynnal archwiliadau cyflog a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n deillio o'r broses honno.

**6.12** Rydym yn cytuno y dylai'r Cynulliad osod esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan o ran y ffordd y mae'n delio â materion yn ymwneud â chydaddoldeb. Fel y prif gorff cyhoeddus yng Nghymru, mae ganddo gyfrifoldeb i gyflawni rhagoriaeth ym mhob maes o'i waith.

**6.13** Credwn fod rhinwedd mewn 'rhoi trefn ar eich tŷ eich hun' ac y gall fod yn fecanwaith grymus i annog newid mewn sefydliadau eraill. Drwy weithredu, a thrwy hynny, brofi y gall rhywbeth gael ei wneud, rydych yn tynnu i lawr y rhwystr cyntaf i newid; a gall sefydliadau eraill dynnu ar brofiadau'r Cynulliad yn rhoi newid arbennig ar waith wrth iddynt hwy hefyd wneud gwelliannau tebyg.

**6.14** Fodd bynnag, ni fyddem am i'r pwyslais ar 'roi trefn ar eich tŷ eich hun' arwain at esgeuluso mater arall tra bo'r Cynulliad yn mynd i'r afael ag ef. Er enghraifft, mae datblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yn un o ofynion allweddol y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio). Hyd yn hyn, bu'r modd yr aeth y Cynulliad ati i weithredu hyn yn anfoddhaol, ond ni ddylai hyn rwystro'r Cynulliad rhag gwneud popeth o fewn ei allu i annog datblygu cynlluniau cydraddoldeb hiliol gan Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a'u gweithredu'n effeithiol.





**Argymhelliad 4:** Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad barhau i osod esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar faterion yn ymwneud â chydaddoldeb, ond lle nad yw'r Cynulliad yn arwain y ffordd, dylai ganfod enghreifftiau o arferion da ar draws y sector cyhoeddus ac annog cyrff cyhoeddus eraill i gyrraedd safon a fydd yn gyfatebol â'r safon orau.

## Arweiniad

**6.15** Un o'r agweddau mwy positif ar ffordd y Cynulliad o ymdrin â chydaddoldeb yw lefel yr arweiniad sy'n cael ei ddarparu ar lefelau gwleidyddol a swyddogol uwch.

**6.16** Pan roddodd Huw Jones, Prif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru, gyflwyniad gerbron y Pwyllgor ym mis Mawrth, fe bwysleisiodd bwysigrwydd y dull o ymdrin â chydaddoldeb 'o'r brig i lawr'. Tynnodd sylw at y rheidrwydd i uwch reolwyr arwain drwy esiampl ac i'r arweiniad hwn fod yn ddisgwyliedig a chael ei fesur wrth asesu eu perfformiad.

*"Ni all prif ffrydio gael ei gyflawni ond drwy fynd i'r afael ag ef o'r brig i lawr, nid drwy gyflwyno canllawiau, rhoi cyngor a llythyron cylch gorchwyl yn unig ond drwy weld prif weithredwyr yn ymrwymo eu hunain i'w yrru i lawr drwy'r sefydliad."*

**(Huw Jones, Prif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru - Mawrth 2004)**

**6.17** Yn y Cynulliad, mae Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb sydd, rydym yn cydnabod, wedi hyrwyddo materion yn ymwneud â chydaddoldeb o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Mae yna fanteision o leoli'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyfle cyfartal o fewn portffolio cyfiawnder cymdeithasol ehangach y Gweinidog gan ei fod yn dwyn ynghyd y gwaith ar dlodi a chynhwysiant cymdeithasol gyda'r gwaith ar y prif linyddau cydraddoldeb. Credwn ei bod yn bwysig i un Gweinidog barhau i fod yn gyfrifol am yr agenda cydraddoldeb yn gyfan ond mae'n hanfodol bod Gweinidogion eraill yn cydnabod y rôl ganolog y maent yn ei chwarae wrth yrru cydraddoldeb yn ei flaen o fewn eu portffolio eu hunain.

**6.18** Yn ystod cyfarfod anffurfiol a gafwyd i drafod rhaglen waith a blaenoriaethau'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol trafodwyd ymdriniaeth Cabinet y Cynulliad â materion yn ymwneud â chydaddoldeb. Cytunwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad ideolegol gan Weinidogion y Cabinet i hyrwyddo cydraddoldeb ond roedd yna wahaniaethau o ran y

blaenoriaethau i'w cyflawni. Rydym yn annog Gweinidogion i sicrhau eu bod yn rhoi cyflawni cydraddoldeb yn uchel ar eu rhestr o flaenoriaethau.

**6.19** Ym Mhennod 9, edrychwn ar sut y bydd y Pwyllgor hwn yn ceisio dwyn pob Gweinidog i gyfrif am hybu cydraddoldeb o fewn y meysydd polisi y mae'n gyfrifol amdanynt.

**ARGYMHELLIAD 5:** Rydym yn argymhell y dylai holl Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod camau'n cael eu cymryd o fewn eu portffolios i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio yn y meysydd polisi y maent yn gyfrifol amdanynt.

**6.20** Mae cydraddoldeb yn cael ei gydnabod yn fater allweddol ar y lefelau uchaf yng Ngwasanaeth Sifil y Cynulliad. Yn ei ragair i'w ran ef i Bedwerydd Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb, ategodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei ymrwymiad i gydraddoldeb:

*"Rwyf yn ymrwymedig i ddatblygu hyn [adeiladu ar sylfaen gref i ymgorffori cydraddoldeb yng ngwead y sefydliad] trwy brif ffrydio cydraddoldeb ac i sicrhau bod y Cynulliad yn rhoi arweiniad clir ac yn gweithredu arferion gorau."*

**(Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Tachwedd 2003)**

**6.21** Mae materion yn ymwneud â chydraddoldeb wedi'u hystyried gan Fwrdd Gweithredol y Cynulliad sy'n cynnwys y swyddogion ar y lefel uchaf, neu Bwyllgor Personél y Bwrdd, ar 12 achlysur o leiaf ers mis Ionawr 2002. Mae materion yn ymwneud â chydraddoldeb hefyd yn codi o dan adroddiadau llafar a thrwy ystyried materion trafod eraill. Mae pennaeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn mynychu cyfarfodydd wythnosol y Bwrdd fel sylwedydd a gall godi materion yn ymwneud â chydraddoldeb mewn perthynas ag unrhyw fater trafod. Croesawn yr ymrwymiad hwn ac edrychwn ymlaen at weld ffocws y Bwrdd Gweithredol ar gydraddoldeb yn cael ei ehangu ymhellach.

**ARGYMHELLIAD 6:** Rydym yn argymhell bod y Bwrdd Gweithredol yn y Cynulliad yn rhoi arweiniad clir, strategol ar faterion yn ymwneud â chyfle cyfartal. Dylai aelodau'r Bwrdd osod esiampl ar gydraddoldeb i'r holl staff sy'n gweithio iddynt a gosod amcanion clir ar gydraddoldeb wrth gyflawni eu gwaith ac o ran y canlyniadau polisi.



**PENNOD 7**

**SICRHAU CYNNYDD - POBL**



## PENNOD 7 – SICRHAU CYNNYDD - POBL

**7.1** Mae strategaeth glir, fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol, yn hanfodol ond ni all strategaeth ar gydraddoldeb gael ei chyflwyno heb gael y materion sy'n ymwneud â phobl yn iawn.

**7.2** Yn ogystal â darparu arweiniad strategol, rydym wedi nodi tair ffordd y gall ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydaddoldeb a phwyslais ar roi gwerth ar amrywiaeth gael eu datblygu ymhlith staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru a thrwy hynny yrru'r agenda o brif ffrydio cydraddoldeb yn ei blaen:

- Drwy recriwtio a chadw staff y mae eu hamrywiaeth yn adlewyrchu'r amrywiaeth yng Nghymru
- Hyfforddiant a datblygiad mewn materion yn ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth
- Prif ffrydio materion yn ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'r broses rheoli perfformiad

**7.3** Tra bo'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Cynulliad, cydnabyddir bod nifer o bobl yng ngweithlu'r Cynulliad yn cael eu cyflogi'n anuniongyrchol ar sail contract. Dylai anghenion yr aelodau hynny o'r staff sydd ar gontract gael eu hystyried yr un mor bwysig wrth ddatblygu polisiau i fynd i'r afael â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

### Amrywiaeth o fewn staff y Cynulliad

**7.4** Mae cynyddu amrywiaeth o fewn staff y Cynulliad o bwys mawr. Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau y rhoddir ystyriaeth i anghenion amrywiol pobl Cymru wrth ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau yw drwy sicrhau bod y staff sy'n cyflawni'r swyddogaethau hynny yn adlewyrchu'r amrywiaeth hwnnw. Ar hyn o bryd nid yw staff y Cynulliad, yn arbennig ar y lefelau uchaf, yn cynrychioli pobl Cymru.

**7.5** Ceir manylion am yr amrywiaeth sy'n bodoli o fewn staff y Cynulliad yn Atodiad C. Mae'r tablau yn y rhan gyntaf o'r Atodiad hefyd yn cynnwys manylion am y targedau i gynyddu amrywiaeth a osodwyd gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

**7.6** I grynhoi, er bod menywod yn cynrychioli 55 y cant o weithlu'r Cynulliad maent wedi'u crynhoi o fewn y graddfeydd is; dim ond 28% o'r Gwasanaeth Sifil Uwch sy'n fenywod.

**7.7** Rhoddir gwybodaeth am anabledd ac ethnigrwydd yn wirfoddol ac, fel y dengys y tablau yn Atodiad C, mae lefel uchel o amrywiad yn y data ar gyfer y Cynulliad yn ddibynnol ar y ffynhonnell. Mae pecyn TG Adnoddau Dynol newydd yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd. Mae'n hanfodol bod y pecyn hwn yn gallu darparu data ynglyn â chyfansoddiad staff y Cynulliad sydd ag awdurdod iddo.

**ARGYMHELLIAD 7:** Rydym yn argymhell bod y Cynulliad yn sicrhau bod y system TG Adnoddau Dynol yn gallu cynhyrchu data awdurdodol ynglyn â chyfansoddiad staff y Cynulliad

**7.8** Ar lefel uchaf y gwasanaeth sifil, mae'r Bwrdd Gweithredol (gan gynnwys dau Gyfarwyddwr Anweithredol) yn cynnwys 14 dyn a 5 menyw ac nid oes neb o gymuned y Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael ei gynrychioli arno.

**7.9** Dywedai strategaeth allgymorth y Cynulliad ei hun, a ystyriwyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Ionawr 2003:

*"O fewn gweithlu'r Cynulliad, mae enghreifftiau difrifol o amryw adrannau o'r gymuned heb gynrychiolaeth ddigonol. Ymhlith y grwpiau hyn 'heb gynrychiolaeth ddigonol' y mae pobl o gymunedau o Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl ag anableddau; menywod mewn uwch swyddi rheoli; a lesbiaid a hoywon (er bod prinder data ynghylch y grŵp hwn). Yn ogystal â hynny, mae materion tebyg yn ymwneud â siaradwyr Cymraeg a'r gymuned Gymraeg ei hiaith."*

**(Strategaeth Allgymorth y Cynulliad – Ionawr 2003)**

**7.10** Mae hefyd yn fater y mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cydnabod bod angen ymdrin ag ef:

*"Rwyf yn benderfynol o ddileu agweddau a phrosesau a all arwain at wahaniaethu – gan gynnwys yr agweddau a'r prosesau hynny sy'n peri nad yw pobl o ba gefndir bynnag y bônt yn chwilio am swydd o fewn y Cynulliad."*

**(Yr Ysgrifennydd Parhaol ym mis Mawrth 2001 mewn ymateb i gyhoeddi 'Codi Pob Llais: Adroddiad i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru')**



**7.11** Ym mis Gorffennaf 2000, llofnododd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Edwina Hart AC, gytundeb partneriaeth gyda Chyd-Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) er mwyn i Roger Mackenzie, uwch swyddog o'r Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol, gynnal adolygiad o hiliaeth sefydliadol yn y Cynulliad. Pwrpas yr adolygiad oedd gweld i ba raddau yr oedd hiliaeth sefydliadol yn bod ac, yng ngoleuni'r asesiad hwnnw, llunio argymhellion ar ddileu gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb hiliol.

**7.12** Trafodwyd yr adroddiad dilynol: 'Codi Pob Llais: Adroddiad i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru' a'r cynllun gweithredu i'w weithredu i gryn fanylder gan y Pwyllgor hwn. Un o'r meysydd allweddol i'w hystyried yn yr adroddiad oedd gweithdrefnau recriwtio a rheoli'r Cynulliad.

**7.13** Mae llawer o'r argymhellion yn 'Codi Pob Llais' wedi'u gweithredu bellach. Rydym yn bryderus, fodd bynnag, ar ôl bron i dair blynedd ers ei gyhoeddi a dwy flynedd a hanner ar ôl ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol i roi yn ei le bolisi recriwtio yn seiliedig ar egwyddorion ac argymhellion yr adroddiad, nad oes strategaeth o'r fath yn ei lle eto.

**7.14** Rydym yn cydnabod bod yn rhaid cynnal ymgynghoriad llawn ymhlith y staff a'r Undebau Llafur ar y polisi allweddol hwn, ond anogwn ei gwblhau cyn gynted ag y bo modd. Mae angen i'r Cynulliad weithio tuag at weithredu arferion gorau wrth recriwtio. Edrychwn ymlaen at weld yn fuan y strategaeth ddrafft derfynol a ddylai gynnwys targedau penodol er mwyn cynyddu amrywiaeth ar bob lefel o fewn llafurlu'r Cynulliad.

**7.15** Dylai'r strategaeth ystyried sut y gall y Cynulliad sicrhau bod cyflogwyr staff dan gontract hefyd yn rhoi blaenoriaeth i faterion yn ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

**Argymhelliad 8:** Rydym yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn sicrhau cytundeb ynglyn â'r strategaeth recriwtio a'i bod yn cael ei rhoi yn ei lle cyn gynted â phosib. Rydym yn argymhell ymhellach bod yr Ysgrifennydd Parhaol a Bernard Galton, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Cynulliad a benodwyd yn ddiweddar, yn cyflwyno'r strategaeth er mwyn i ni ei hystyried ac yn trafod eu blaenoriaethau i gynyddu amrywiaeth ar bob lefel o fewn llafurlu'r Cynulliad ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

**7.16** Yn ogystal â'r strategaeth recriwtio, credwn hefyd y dylai'r Cynulliad fod yn rhagweithiol yn ei waith maes er mwyn sicrhau ei fod yn annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cais am swyddi. Dylai pob ymdrech gael ei gwneud i sicrhau bod y Cynulliad yn hysbysebu swyddi i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ddefnyddio'r dulliau mwyaf priodol. Mae angen i ni sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei weld fel sefydliad y mae pobl, o ba gefndir bynnag y bônt, am weithio iddo.

**7.17** Fel Pwyllgor, rydym yn croesawu datblygiad strategaeth allgymorth yn ein cyfarfod ym mis Ionawr 2003 ac rydym wedi nodi nifer o weithgareddau mewn perthynas ag allgymorth yn y Pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb. Edrychwn ymlaen at weld gwerthusiad llawn o'i weithrediad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

**Argymhelliad 9:** Rydym yn argymell gwerthuso'r strategaeth allgymorth a chyflwyno'r gwerthusiad i'r Pwyllgor hwn ynghyd â strategaeth recriwtio'r Cynulliad y cyfeiriwyd ato yn Argymhelliad 8.

**7.18** Mewn perthynas â'r Bwrdd Gweithredol, awgrymwn fod yr Ysgrifennydd Parhaol yn ystyried datblygu ei ddefnydd o'r cyfarwyddwyr anweithredol er mwyn cynyddu amrywiaeth o fewn y Bwrdd yn y tymor byr. Yn y tymor canolig i'r tymor hir rhaid i'r Cynulliad sicrhau amrywiaeth o fewn y staff ar bob lefel.

**Argymhelliad 10:** Rydym yn argymell bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn ystyried a ellid defnyddio cyfarwyddwyr anweithredol fel mesur dros dro i gynyddu amrywiaeth o fewn y Bwrdd Gweithredol.

## Cael y mwyaf o staff y Cynulliad

**7.19** Rydym yn cydnabod mai un ffordd yn unig o gynorthwyo â'r gwaith o brif ffrydio cydraddoldeb yw cynyddu amrywiaeth o fewn y gweithlu, er ei fod yn gam pwysig. Mae'n hanfodol bod y Cynulliad hefyd yn mynd ati i hyfforddi a datblygu ei staff presennol er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r goblygiadau o safbwynt cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu gwaith.





## Hyfforddi

**7.20** Mae Pedwerydd Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb yn dangos bod hyfforddiant ar gydraddoldeb yn nodwedd bwysig ar y flwyddyn ariannol 2002-2003. Dywedodd yr Uned Polisi Cydraddoldeb a'r Is-adran Bersonél bod hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb yn ei le ar gyfer pob aelod o'r staff. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn ac yn cefnogi'r penderfyniad i wneud yr hyfforddiant yn orfodol. Mae'r penderfyniad yn dangos ymrwymiad i'r agenda cydraddoldeb ac, yn bwysicach na hynny, wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant elfennol ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb.

**7.21** Ni ddylai'r hyfforddiant hwn fod yn ddim ond un sesiwn ar ei ben ei hun, fodd bynnag, ac mae'n dda gennym nodi bod hyfforddiant ar gydraddoldeb yn rhan o'r rhaglen gynefino ar gyfer pob aelod o'r staff pan fyddant yn ymuno â'r Cynulliad. Dylai hyn barhau, ond rhaid hefyd sicrhau rhaglen barhaus o hyfforddiant ar gydraddoldeb. Dylai hyn ddatblygu o'r sesiwn 'codi ymwybyddiaeth' a gynhaliwyd yn ystod y cwrs cyntaf er mwyn rhoi sylw i gydraddoldeb yng nghyd-destun swyddogaethau penodol a meysydd polisi'r Cynulliad a chanolbwyntio ar ddefnyddio egwyddorion cydraddoldeb yn y gwaith o ddydd i ddydd. Dylai'r hyfforddiant gael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei adolygu yn unol â'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb ac arferion gorau.

**Argymhelliad 11:** Rydym yn argymhell bod hyfforddiant ynglŷn â materion cydraddoldeb yn parhau er mwyn ffurfio rhan allweddol o raglen gynefino'r Cynulliad ar gyfer y staff. Dylai rhaglen barhaus o hyfforddiant yn ymwneud â chydraddoldeb yn benodol gael ei chyflwyno. Dylai'r hyfforddiant gael ei werthuso a'i adolygu'n barhaus.

## Disgrifiadau swydd staff a'r trefniadau ynglŷn ag adrodd

**7.22** Credwn ei bod hefyd yn holl bwysig bod cydraddoldeb yn berthnasol i swydd pob unigolyn. Rydym felly yn cefnogi'r ffaith ei bod hi'n ofynnol fod pob aelod o staff y Cynulliad, gan gynnwys aelodau o'r Gwasanaeth Sifil Uwch, yn cael amcan cydraddoldeb / amrywiaeth yn eu cynlluniau perfformiad a datblygiad.

**7.23** Fodd bynnag, credwn fod angen monitro'r amcanion hyn mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Mae Adran Adnoddau Dynol y Cynulliad eisoes yn archwilio sampl o'r cynlluniau perfformiad a datblygiad. Dylai'r broses archwilio hon ystyried hefyd a oes amcanion cydraddoldeb ystyrllon yn cael eu pennu a beth yn union yw'r canlyniadau sy'n sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Y pwrpas fyddai nid yn gymaint i wneud sylwadau ar adroddiadau unigol, ond ystyried a fyddai angen unrhyw gymorth neu gyfarwyddyd ychwanegol i sicrhau bod amcanion priodol yn cael eu dewis a bod gweithredu ymarferol yn digwydd er mwyn eu cyflawni.

**Argymhelliad 12:** Yn rhan o'i archwiliad blynyddol o gynlluniau perfformiad a datblygiad staff, dylai Grŵp Adnoddau Dynol y Cynulliad asesu priodoldeb yr amcanion cydraddoldeb a'r camau a gymerwyd i'w cyflawni. Yng ngoleuni'r asesiad hwnnw, dylai ddarparu cymorth neu gyfarwyddyd ychwanegol fel y bo angen.

## Aelodau'r Cynulliad

**7.24** Mae amrywiaeth ymhlith Aelodau etholedig hefyd yn bwysig. Credwn y dylai'r Cynulliad fod yn falch o'i gydbwysedd 50/50 rhwng y rhywiau a lefel y gynrychiolaeth sydd i fenywod yng Nghabinet y Cynulliad gan fod y ddau yn cymharu'n ffafriol iawn â sefydliadau eraill yn y DU.

"Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu cydnabod ar y blaen mewn perthynas â materion yn ymwneud â chydaddoldeb, mae'r rhaniad 50/50 yng nghynrychiolaeth y ddau ryw ymhlith Aelodau'r Cynulliad yn cael ei ddyfynnu fel enghraifft ar gyfer democratiaethau ledled Ewrop."

(Ymateb i'r ymgynghoriad gan y Cyngorydd Cydraddoldeb –  
Cyngor Rhondda Cynon Taf)

**7.25** Mae'r tablau canlynol, sy'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Ganolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe) a Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, yn rhoi gwybodaeth am y cydbwysedd rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd ar gyfer deddfwrfeydd a gweithrediaethau yn y DU. (Ceir cymariaethau rhyngwladol yn Atodiad E). Dangosant fod angen gwneud mwy o waith eto ar gynyddu amrywiaeth ymhlith Aelodau etholedig, yn arbennig ar sicrhau cynrychiolaeth gan gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.




Cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn Deddfwrfeydd										
	Senedd yr Alban		Senedd y DU – Tŷ'r Cyffredin		Senedd y DU – Tŷ'r Arglwyddi		Senedd Ewrop (aelodau'r DU yn unig)		Cynulliad-Cenedlaethol Cymru	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
<b>Cyfanswm</b>	129	100	659	100	668	100	87	100	60	100
<b>Dynion</b>	78	39.5	540	81.1	558	83.5	66	75.8	30	50
<b>Menywod</b>	51	60.5	119	18	110	16.5	21	24.1	30	50

Cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn gweithrediaethau						
	Gweithrediaeth yr Alban		Cabinet y DU		Llywodraeth Cynulliad Cymru	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
<b>Cyfanswm</b>	21	100	21	100	9	100
<b>Dynion</b>	16	76.2	16	76.2	4	44.4
<b>Menywod</b>	5	23.8	5	23.8	5	55.5

Cynrychiolwyr o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig					
	Senedd yr Alban	Senedd y DU – Tŷ'r Cyffredin	Senedd y DU – Tŷ'r Arglwyddi	Cabinet y DU	Llywodraeth Cynulliad Cymru
	%	%	%	%	%
<b>Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig</b>	0	1.8	0.4	9.5	0

**7.26** Rydym hefyd yn cefnogi'n gryf hyfforddiant ar gydraddoldeb ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Croesawn y cwrs diweddar a drefnwyd yn bennaf ar gyfer Aelodau sy'n gwasanaethu ar baneli penodiadau cyhoeddus a Chadeiryddion Pwyllgorau a chefnogwn ddarparu hyfforddiant pellach. Credwn y dylai rhaglen hyfforddiant gael ei dyfeisio a fydd yn darparu hyfforddiant ar amryw bynciau, gan gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys hyfforddiant ar gydraddoldeb mewn perthynas â



gweithdrefnau dewis ar gyfer penodiadau cyhoeddus, datblygu Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol a'r goblygiadau o dan y cynlluniau hyn a sut i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn y swyddfeydd etholaethol. Byddai ystod o bynciau eraill yn ddefnyddiol hefyd.

**7.27** Rydym yn parhau i gredu na ddylai'r un Aelod gymryd rhan yng ngweithgareddau panel sy'n gwneud penodiad cyhoeddus oni bai y bu ar gwrs hyfforddiant ar gydraddoldeb.


**Argymhelliad 13:** Rydym yn argymhell darparu hyfforddiant pellach ar gydraddoldeb ar gyfer Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau penodol. Dylai gael ei gyflwyno mewn sesiynau byr er mwyn cyd-fynd ag amserlen yr Aelodau a dylid ystyried cynnig sesiynau byr ar ddydd Llun neu ddydd Gwener yn etholaethau'r Aelodau. Ni ddylid caniatáu i Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan yng ngweithgareddau panel sy'n gwneud penodiad cyhoeddus oni bai y buont ar gwrs hyfforddiant ar gydraddoldeb.



## **PENNOD 8**

# **SICRHAU CYNNYDD – CAMAU YMARFEROL, DULLIAU GWEITHREDU: CANLLAWIAU A CHYNOGR**





## PENNOD 8 – SICRHAU CYNNYDD – CAMAU YMARFEROL, DULLIAU GWEITHREDU: CANLLAWIAU A CHYNGOR

**8.1** Rydym wedi trafod yr angen am strategaeth gyffredinol ar brif ffrydio, a'r pwysigrwydd canolog o gael staff sy'n ymrwymedig i gydraddoldeb a chyflwyno polisïau a gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion pawb yng Nghymru. Trown yn awr at rai o'r dulliau a'r arferion all gael eu defnyddio i sicrhau cyflawni'r amcanion hyn.

### Cymorth a chyngor canolog ar gydraddoldeb

**8.2** Yn ystod ein sesiwn casglu tystiolaeth ym mis Mawrth 2004, nododd un o'r cyflwynwyr fod yna risg bob amser y gall prif ffrydio fod yn broblem i bawb ac felly yn broblem i neb. Credwn fod hyn yn risg gwirioneddol a'i bod hi'n bwysig gwneud yn glir, ar yr adeg yma, nad yw prif ffrydio yn golygu mai hyn fydd y diwedd ar staff sy'n arbenigo mewn gwaith ar gydraddoldeb.

**8.3** Yn wir, credwn fod swyddogaeth ganolog gref yn ymwneud â chydaddoldeb gyda digon o adnoddau wedi'i neilltuo ar ei chyfer yn hanfodol ac y dylai rôl y staff gynnwys:

- paratoi strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb yn cynnwys amcanion clir er mwyn cyflawni cydraddoldeb
- rhoi cyngor a chyfarwyddyd i aelodau eraill o'r staff er mwyn eu galluogi i brif ffrydio cydraddoldeb yn eu meysydd polisi penodol
- delio â materion polisi trawsbynciol a materion ehangach yn ymwneud â chydaddoldeb, er enghraifft, cynigion o Lywodraeth y DU
- archwilio pa mor effeithiol y mae'r Cynulliad yn prif ffrydio cydraddoldeb a pha effaith a gaiff ar ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau.

### **PWYSIGRWYDD UNEDAU CYDRADDOLDEB CANOLOG**

*"Mae Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol a'r cymorth a ddarperir gan Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn fodd i gynorthwyo Awdurdodau Lleol gyda'r gwaith o ddatblygu strategol a*

*datblygu polisi. Awgrymwn fod angen i'r Cynulliad edrych ar safon gyffelyb er mwyn sicrhau bod ei ymrwymiad i gydraddoldeb yn treiddio drwy'r Cynulliad cyfan a bod yr holl adrannau yn ymwybodol o'r angen i brif ffrydio cydraddoldeb."*

**(Ymateb i'r ymgynghoriad gan y Cynghorydd Cydraddoldeb – Cyngor Rhondda Cynon Taf)**

*"Mae Uned Cydraddoldeb y GIG wedi gwneud llawer o waith yn y maes hwn (yn rhannu arferion da) gyda chyrrff y GIG yng Nghymru a dylid edrych arno fel enghraifft o arfer da yn gyffredinol."*

**(Ymateb i'r ymgynghoriad gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro)**

*Mae Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn "sefydliad defnyddiol i gael cyngor a gwybodaeth o ddydd i ddydd yn ogystal â'r cyfarfodydd rhwydwaith chwarterol y maent yn eu trefnu".*


**(Ymateb i'r ymgynghoriad gan y Swyddog Cydraddoldeb a Mynediad – Cyngor Sir Fynwy)**

*"Tra bo'r comisiynau statudol fel y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn medru rhoi cymorth a chynghor mewn achosion unigol, gall Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG sicrhau bod y GIG yn cynnwys cydraddoldeb yn ei holl weithgareddau. Nid sefydliad gorfodi ydyw ond sefydliad galluogi sy'n anelu at feithrin gallu a hybu cydraddoldeb er mwyn atal gwahaniaethu – gan ymateb i'r hyn sydd ei angen ar y gwasanaeth."*

**(Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG – cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2004)**

**8.4** Pan ddaeth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i gyfarfod o'n Pwyllgor ym mis Tachwedd 2003 i drafod Pedwerydd Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb, cyfeiriodd at y prinder staff o fewn Uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad ar y pryd a oedd yn llesteirio ei gallu i symud yr agenda cydraddoldeb yn ei blaen. Cyfeiriwyd at yr un problemau unwaith eto gan gynrychiolwyr Chwarae Teg yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2004. Rydym yn pryderu bod y broblem staffio yn parhau a hoffem ei gweld yn cael ei datrys cyn gynted ag y bo modd.





**8.5** Rydym eisoes wedi codi gyda Llywodraeth y Cynulliad y trefniadau adrodd cyfredol ar gyfer yr Undeb Polisi Cydraddoldeb ac i ba raddau y gall roi cymorth i'r holl Weinidogion a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad o ystyried ei lleoliad presennol o fewn yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn cynnal trafodaethau cyson ar y mater hwn ac edrychwn ymlaen at glywed y cynigion.

**8.6** Mae'n werth nodi'r trefniadau gwahanol ar gyfer yr Uned Datblygu Cynaliadwy sy'n gyfrifol am yrru ymlaen y polisi ar un o themâu trawsbynciol eraill y Cynulliad. Lleolwyd yr Uned Datblygu Cynaliadwy yn flaenorol mewn Is-adran a adroddai i un Gweinidog, ond fe'i symudwyd i'r Uned Polisi Strategol. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod yna wahaniaethau yn y meysydd yr oeddent yn ymdrin â hwy, yn arbennig y goblygiadau deddfwriaethol mwy eang ym maes cydraddoldeb – y mae llawer ohonynt wedi'u gorfodi ar y Cynulliad yn ei gyfanrwydd, er enghraifft, y rheini sydd yn y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio).

**Argymhelliad 14:** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi eglurhad ynglyn â rôl yr Uned Polisi Cydraddoldeb, yn arbennig i bwy y mae'n adrodd ac i bwy y mae'n gyfrifol am roi cyngor. Dylai'r eglurhad hwnnw sicrhau bod cyngor ar gydraddoldeb o'r safon uchaf bosib ar gael i bob Gweinidog, yn ogystal â'r Cynulliad yn gorfforaethol a'r Pwyllgorau. Rydym hefyd yn argymhell bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod yr Uned wedi'i staffio'n llawn a bod gan y staff yr arbenigedd priodol a'u bod yn derbyn yr hyfforddiant priodol.

## **Cymorth a chyngor ar gydraddoldeb yn lleol**

**8.7** Yn ogystal ag uned cydraddoldeb ganolog, credwn y dylai Is-adrannau'r Cynulliad sefydlu mecanweithiau i hybu cydraddoldeb yn eu gwaith. Er enghraifft mae'r Pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yn cyfeirio at Fwrdd Cydraddoldeb Adrannol Adran yr Amgylchedd a Chynllunio. Credwn y bydd y math hwn o strwythur o fudd o ran sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb yn cael eu defnyddio wrth ymgymryd â gwaith penodol mewn maes polisi arbennig.

**8.8** Dylid creu cysylltiadau clir rhwng y strwythurau hyn a'r Uned Polisi Cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio yn unol â nodau ac amcanion y strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb a'u bod yn ymwybodol o'r canllawiau penodol sydd ar gael iddynt.

**Argymhelliad 15:** Rydym yn argymell y dylai pob Is-adran yn y Cynulliad sicrhau bod un person, ar lefel ddigon uchel, yn gyfrifol am ddelio â materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn holl waith yr Is-adran. Dylai fod yna fyrddau cydraddoldeb ar lefel Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Is-adran.

## Canllawiau

**8.9** Credwn fod angen canllawiau clir ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb. Pan ystyriwyd y broses ymgynghori ynghylch adeilad newydd y Cynulliad roedd hi'n amlwg bod diffyg eglurder ynghylch yr hyn a olygai adeilad a oedd yn hygyrch: o ran goblygiadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar gyfer prosiect ar gyfer adeilad newydd a'r safonau y mae'n bosibl y byddai'r Cynulliad, fel corff cyhoeddus â ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â chydraddoldeb, am anelu atynt.

**8.10** Credwn fod gwell canllawiau ar fynediad i adeiladau yn ofynnol i sicrhau bod pob prosiect cyfalaf newydd, boed ym maes iechyd, addysg neu faes arall, yn rhoi ystyriaeth drylwyr i ofynion mynediad. Rhaid i'r gofynion hyn adlewyrchu'r safonau sylfaenol sydd wedi'u hamlinellu yn y ddeddfwriaeth ond dylent hefyd gynnwys datganiad clir o'r hyn y byddai'r Cynulliad, o ystyried ei ddyletswydd ynglyn â chydraddoldeb, yn ei gyflawni.

**8.11** Credwn hefyd mai rhan allweddol o ddatblygiad strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb, fel y cynigir yn argymhelliad 2, fyddai adolygiad trylwyr o'r holl ganllawiau presennol ar gydraddoldeb. Byddai enghreifftiau yn cynnwys canllawiau ar gynhyrchu dogfennau hygyrch; canllawiau ar ymgynghori, sy'n cael eu trafod yn fanylach isod; a chanllawiau ar drefnu cyfarfodydd sy'n rhoi sylw i ganllawiau ar gydraddoldeb a chanllawiau penodol ar y goblygiadau o dan yr amryw ddarnau o ddeddfwriaeth yn ymwneud â chydraddoldeb. Dylai'r adolygiad sicrhau bod canllawiau diweddar, cywir sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y strategaeth cydraddoldeb, ar gael i'r staff. Yn dilyn yr adolygiad, dylai'r canllawiau diwygiedig gael eu cyhoeddi'n eang.

**8.12** Mae angen i ganllawiau polisi, er enghraifft canllawiau i ysgolion ar agweddau ar y polisi addysg, ddelio â materion yn ymwneud â chydraddoldeb a rhoi cyngor penodol ar yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad am ei weld yn cael ei gyflwyno.

**8.13** Tynnwyd sylw at gyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei ymateb i'r ymgynghori:

*"Ar hyn o bryd mae materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn cael eu hystyried, neu o leiaf tynnir sylw at yr angen i ystyried egwyddorion cydraddoldeb, mewn rhai agweddau ar waith y Cynulliad mewn perthynas â llywodraeth leol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion ni chaiff hyn ei wneud i'r lefel angenrheidiol er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â hwy yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw canllawiau'r Cynulliad ar ddatblygu strategaethau cymunedol sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn rhan o'r broses cynllunio cymunedol a'r angen i sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac anodd eu cyrraedd yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau yn amlinellu'n glir y disgwyliadau o ran sut i fynd ati i gyflawni hyn, ac nid yw'n glir chwaith sut y caiff hyn ei fesur fel ffactor llwyddiant yn y strategaethau a ddaw yn sgil hynny. Mae angen i swyddogion ar draws y Cynulliad gael gwell dealltrwriaeth o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb a'u disgwyliadau o ran sut y dylai cyrff ymgorffori hyn yn rhan o'u gwaith. Bydd hyn yn eu helpu i ymgymryd â'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau unigol wrth brif ffrydio cydraddoldeb."*


**(Ymateb i'r ymgynghori gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)**

**8.14** Gwnaed cais gan rai eraill a ymatebodd i'r ymgynghori am gymorth a chyfarwyddyd ychwanegol gan y Cynulliad:

*"Gallai'r Cynulliad hefyd ddarparu canllawiau a chymorth ychwanegol i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wrth brif ffrydio materion yn ymwneud â chydraddoldeb; o ystyried rôl cyrff o'r fath yn darparu gwasanaethau cyhoeddus byddai manteision sylweddol o gael cymorth o'r fath."*

**(Ymateb i'r ymgynghori gan y Cyngor Cenedlaethol ELWa)**

**8.15** Dywed y cyfarwyddyd presennol ar baratoi papurau Pwyllgor fod gan y Cynulliad ddyletsywydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i gyflawni ei swyddogaethau gan ystyried egwyddorion cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy. Awgryma "Mae'n bosibl y bydd Pwyllgorau am weld ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i oblygiadau'r materion strategol hyn. Wrth ddrafftio papurau dylech ystyried y goblygiadau (os oes yna rai) o ran y materion trawsbynciol o'r cychwyn cyntaf ". Credwn y dylid ei



ddiwygio er mwyn datgan y dylid rhoi ystyriaeth yn benodol i faterion trawsbynciol. Mewn rhai achosion gallai hyn olygu, yn syml, nodi nad oes goblygiadau o safbwynt cyfle cyfartal neu ddatblygu cynaliadwy, ond mae'n bwysig mynd drwy'r broses o feddwl am y goblygiadau posibl. Credwn y dylai gofynion tebyg gael eu cynnwys yn y canllawiau ar roi cyngor i Weinidogion.

**Argymhelliad 16:** Rydym yn argymhell bod adolygiad trylwyr o holl ganllawiau presennol y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â chydaddoldeb yn cael ei gynnal yn rhan o'r broses o ddatblygu strategaeth gyffredinol. Yng ngoleuni'r adolygiad, dylai'r canllawiau gael eu hadolygu, os yw'n briodol, ac yna dylid hysbysu'r staff ohonynt. Dylai'r canllawiau ar bapurau Pwyllgor a chyflwyniadau Gweinidogion gael eu hadolygu hefyd er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i oblygiadau o safbwynt cyfle cyfartal.

## Ymgynghori

**8.16** Mae ymgynghori effeithiol o bwys arbennig yng nghyd-destun prif ffrydio. Pan edrychwyd ar y broses ymgynghori ynghylch adeilad newydd y Cynulliad roedd hi'n amlwg yn ystod cyfnod cychwynnol y prosiect mai ychydig o ganllawiau a oedd ar gael ar ymgynghori ac, er i hyn wella yn ddiweddarach, nid oeddent yn cael eu defnyddio yn gyson hyd yn oed wedyn.

**8.17** Os yw'r Cynulliad o ddifrif ynglyn â phrif ffrydio cydraddoldeb a sicrhau bod y penderfyniadau a gymer yn seiliedig ar gymaint o wybodaeth ag y bo modd yna rhaid wrth ymgynghori priodol sy'n ymateb i ofynion arbennig grwpiau lleiafrifol gwahanol. Mae hyn yn arbennig o bwysig tra bo'r grwpiau hyn yn parhau heb gynrychiolaeth ddigonol ymhlith y rhai sy'n llunio polisi.

**8.18** Aethpwyd i gryn fanylder wrth ymdrin â mater ymgynghori yn ystod ein Hadolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid. Mae diwylliant y Sipsiwn a'r Crwydriaid yn seiliedig ar draddodiad llafar. Mae ymgynghori ysgrifenedig allan o'u cyrraedd ac yn aneffeithiol. Rhaid defnyddio dulliau eraill ond wrth wneud hynny rhaid cydnabod gwahaniaethau diwylliannol – mewn diwylliant llafar mae arwyddocâd arbennig i addewidion a wnaed ar lafar a rhaid i unrhyw drafodaethau ynghylch canlyniadau posibl fod yn sensitif i hyn.



### **Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid: rhai enghreifftiau o arferion da wrth ymgynghori**

Yng Nghaerdydd, cyfrannodd preswylwyr safle Shirenewton yn llwyddiannus at ymarfer ymgynghori a'i galluogodd i benderfynu ar agweddau ar gynllun eu safle cyn ei adnewyddu. Er enghraifft, arweiniodd yr ymgynghoriad at symud blociau ymolchi o du blaen y carafanau i'r tu ôl iddynt.


Darparodd un prosiect, nad oedd wedi'i anelu benodol at Sipsiwn a Chrwydriaid ond a allai fod yn berthnasol, gamerâu taflu i breswylwyr yr awdurdod lleol i gofnodi eu hoff bethau a'u cas bethau ar eu hystad. Defnyddiwyd y wybodaeth hon wedyn i helpu i gynllunio gwelliannau a gwaith cynnal a chadw. Roedd yn effeithiol iawn o ran dod â phroblemau i sylw darparwyr gwasanaeth, a gallai fod yn effeithiol gyda Sipsiwn Crwydrol.

### **O Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar yr Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid, 2003**

**8.19** Mae nifer o faterion i'w hystyried wrth sicrhau bod yr ymgynghoriad o fewn cyrraedd i bobl anabl, er enghraifft sicrhau bod y deunydd yn cael ei gyflwyno mewn fformat y gallant ei ddefnyddio, sicrhau bod cymorth cyfathrebu ar gael mewn cyfarfod ac y rhoddir digon o rybudd ynglŷn â dyddiadau cyfarfodydd. Croesawn felly y canllawiau y bwriada Anabledd Cymru eu cynhyrchu drwy ymgynghori â phobl anabl ac y cyfeiriwyd atynt yn ystod eu cyflwyniad yn ein cyfarfod ym mis Rhagfyr 2003 ac edrychwn ymlaen at weld y canllawiau manwl ar ôl cytuno arnynt.

**Argymhelliad 17:** Rydym yn argymhell adolygu canllawiau ymgynghori'r Cynulliad er mwyn sicrhau eu bod wedi'u seilio'n gadarn ar egwyddorion cyfle cyfartal a'u bod yn delio â'r angen i fynd i'r afael ag amrywiaeth o fewn y cyhoedd yng Nghymru.

**8.20** Wrth ymgynghori, credwn ei bod yn hollbwysig bod y Cynulliad yn ymgysylltu ag ystod mor eang â phosibl o bobl. Nid yw ysgrifennu at y 'bobl arferol' yn unig yn dderbyniol. Roeddem yn hapus iawn felly â'r dulliau ymgynghori a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol drafft yn yr hydref y llynedd. Trefnwyd cyfuniad o grwpiau ffocws penodol, cyfarfodydd ymgynghori agored ac ymgynghoriad ysgrifenedig er mwyn annog cynifer â phosibl i gymryd



rhan. Cadarnhawyd y dull hwn gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn ein cyfarfod ym mis Tachwedd 2003 ac rydym yn obeithiol y dylai dalu ar ei ganfed drwy gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol terfynol sy'n ymdrin â'r materion hynny sydd o wir bwys i gymunedau'r bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

**8.21** Rydym yn cydnabod na fydd hi bob amser yn briodol i ddefnyddio'r strwythurau cymhleth sydd wrth wraidd y broses ymgynghori a ddefnyddiwyd gyda'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ac, mewn nifer o achosion, y bydd gan gyrff cynrychiadol rôl allweddol i'w chwarae yn rhan o'r ymgynghori. Rhaid i'r graddau yr ymgysylltir yn rhagweithiol yn ehangach ag eraill gael ei seilio ar asesu pwysigrwydd y mater yr ymgynghorir yn ei gylch i grwpiau lleiafrifol neu grwpiau dan anfantais a nodi meysydd sydd o berthnasedd arbennig. Cyfeiriwyd at yr egwyddor allweddol hon ar nifer o achlysuron gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn ystod trafodaethau ar ddatblygu cynlluniau cydraddoldeb hiliol.

**8.22** Ystyriaeth arall yw i ba raddau y mae rhai grwpiau yn teimlo'n gyfforddus yn ymgysylltu â chyrff cyhoeddus, neu hyd yn oed yn ymuno â grwpiau wedi'u trefnu. Yn ein hadroddiad ar yr Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid, cyfeiriwyd at astudiaeth a wnaed yn Hillingdon, Lloegr yn 2002 i ganfod pa gymorth oedd ei angen ar gymunedau ethnig lleiafrifol nad oedd ganddynt grwpiau neu rwydweithiau cymunedol. Dangosodd yr adroddiad mai Sipsiwn a Chrwydriaid, ynghyd â Kosovariaid, oedd y rhai mwyaf drwgdybus o gael eu cyf-weld ac yn arbennig o gael eu recordio, oherwydd eu hofn o gael eu hadnabod y tu allan i'w cymunedau a'u herlid neu eu trin yn wael: *"Rydym yn trio peidio â chymysgu os nad oes raid, gwell gennym gymysgu â'n pobl ein hunain, dyna'n ffordd o fyw yna dydych chi ddim yn mynd i drwbl."*

### **Prif ganfyddiadau adroddiad Hillingdon mewn perthynas â Sipsiwn a Chrwydriaid**

- Nid oedd y rhan fwyaf o'r rheini a gyfwelwyd wedi bod yn rhan o unrhyw grŵp a oedd wedi'i drefnu
- Ni ddatgelodd un Crwydriaid ifanc a ymunodd â chlwb ieuenctid pwy ydoedd am ei fod yn ofni y câi ei boeni

- Roedd rhai yn credu y byddai'n syniad da ffurfio grwp ar gyfer y Crwydriaid ond y byddai'n rhaid iddo gael ei drefnu gan y Crwydriaid eu hunain oherwydd eu diffyg ymddiriedaeth mewn pobl eraill fel y gallent fynd yno heb fod ag ofn cael eu bychanu
- Roedd un o'r Crwydriaid a atebodd yn credu bod y gymuned wedi arfer â derbyn ail orau
- Ychydig o bobl ymhlith Sipsiwn a Chrwydriaid a wyddai am y Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol lleol ac y gellid cysylltu â hwy ynglŷn ag achosion hiliol. Roedd y rhai hynny a wyddai amdanynt yn credu mai ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol mwy o faint yr oeddent yn berthnasol
- Croesawyd yn gyffredinol cael swyddog cyswllt o fewn y cyngor a oedd yn gyfrifol am gyfathrebu â hwy a'u cefnogi

**8.23** Er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn a rhwystrau eraill cefnogwn feithrin gallu'r bobl hyn i gyfrannu at y broses o ymgynghori a datblygu polisi. Nid digon yw dweud bod y cyfle wedi'i roi. Rhaid cymryd camau rhagweithiol a rhoi cymorth er mwyn cynnwys pobl yn rhan o'r broses. Mae meithrin gallu yn fater y bydd Anabledd Cymru yn ymdrin ag ef yn eu canllawiau ymgynghori.

### **Meithrin gallu yn effeithiol - Hawliau ar Waith: Cyngres Ryngwladol ar gyfer Pobl Ifanc Anabl**

Hawliau ar Waith – Mae'r Gyngres Ryngwladol ar gyfer Pobl Ifanc Anabl yn enghraifft ysbrydoledig o ba mor effeithiol y gall meithrin gallu fod i alluogi pobl i siarad am faterion sydd o bwys iddynt hwy a rhoi ar waith unrhyw gynlluniau i'w datblygu ymhellach.

Fel Pwyllgor bu'n fraint i ni weld y bobl ifanc o Gymru a gymerodd ran yn y Gyngres yn magu hyder yn ystod eu tri ymweliad â'n cyfarfodydd ni. Rydym yn cydnabod bod y manifesto a ymddangosodd o'r Gyngres ei hun yn ddatganiad grymus o flaenoriaethau'r bobl ifanc ar gyfer gweithredu pellach a'u hymrwymiad i'w gweld yn cael eu gwredu.

**Argymhelliad 18:** Rydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad, wrth ymgynghori, geisio ymgysylltu ag ystod mor eang o unigolion a sefydliadau ag y bo modd. Lle bo mater o bwys arbennig i grŵp lleiafrifol

neu grŵp o dan anfantais rhaid cymryd camau i sicrhau y gofynnir iddynt am eu barn ac y gweithredir ar eu barn. Mewn rhai achosion bydd angen meithrin gallu o fewn y gymuned honno er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn y broses.

## Dulliau o sicrhau cydraddoldeb

**8.24** Mae canllawiau yn bwysig ond mae hefyd yn hanfodol sicrhau bod gan y bobl yr hyn sydd ei angen arnynt yn ymarferol i'w galluogi i ganfod unrhyw oblygiadau o safbwynt cydraddoldeb yn eu gwaith; asesu eu harwyddocâd a'u perthnasedd; a chynnig camau gweithredu pwrpasol i ddelio â hwy. Edrychwyd ar nifer o ddulliau diagnostig o'r fath yn ystod yr adolygiad hwn.

**8.25** Mae'r Comisiwn Archwilio a roddodd gyflwyniad gerbron ein cyfarfod ym mis Chwefror, wedi datblygu hunanasesiad ar gyfer sefydliadau i'w ddefnyddio i arfarnu beth yn union yw eu sefyllfa o safbwynt cydraddoldeb hiliol. Dywed y rhagarweiniad fel gair o eglurhad ei fod yn: *"explores the five stages of the journey to race equality. It gives examples of what you might expect to see at each stage, identifies the barriers and assumptions that may be preventing progress and highlights the breakthroughs that are most likely to help your organisation move forward."* Ceir rhagor o wybodaeth yn y testun yn y blwch.

### Y Comisiwn Archwilio - Journey to Race Equality self-assessment tool

Bwriad yr hunanasesiad Journey to Race Equality yw ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn gweithdy er mwyn i sefydliadau weld ble yn union maen nhw arni ar yr adeg arbennig honno a sut y gallant wella eu perfformiad.

Mae'r set gyntaf o gwestiynau yn datgan yn hwylus y pethau sylfaenol y bydd yn rhaid i bob corff sydd am fynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol ei wneud:

- A wyddom lle mae'r prif ddiffygion o ran cydraddoldeb yn ein corff ni ein hunain a'r gymuned leol?
- A ydym ni'n hyderus y byddai cymunedau'r bobl dduon a'r lleiafrifoedd ethnig yn nodi'r un meysydd?



- A ydym ni wedi diffinio beth yn union y mae cydraddoldeb hiliol yn ei olygu i'n sefydliad o ran canlyniadau gwirioneddol?
- A allwn ni roi tystiolaeth gadarn i ddangos gwelliant o ran y canlyniadau?

Gofynnir y cwestiynau uchod wrth fesur perfformiad corff yn y meysydd allweddol a ganlyn:

- Canlyniadau'r gwasanaeth
- Ymddiriediaeth a hyder o fewn y gymuned
- Cysylltiadau cymunedol positif
- Mynediad at wasanaethau a gwybodaeth
- Dylanwad dros wneud penderfyniadau
- Cyflogaeth

Ar ôl cwblhau'r broses gall y sefydliad ddilyn ei drywydd ei hun yn erbyn y pum cam hyn o'r daith: gwrthsefyll; bwriadu; dechrau; datblygu a chyflawni. Disgrifir nodweddion pob un o'r camau hyn yn erbyn nifer o benawdau gan gynnwys diwylliant a rasionâl; gweledigaeth, blaenoriaethau a chanlyniadau; gallu ac ymgysylltiad â'r gymuned.

Ar ôl darganfod sefyllfa bresennol y sefydliad, mae'r canllawiau yn mynd yn eu blaen i annog y sefydliad i nodi ei gryfderau a meysydd i'w datblygu ac i ymrwmo wrth gamau penodol i'w cymryd er mwyn gwella dros y chwe mis i ddilyn.

**8.26** Edrychwn ar yr angen am archwiliadau cydraddoldeb cynhwysfawr ym Mhennod 9, ond credwn fod y math hwn o 'asesiad o ble yn union rydym ni arni' yn fan cychwyn defnyddiol, yn arbennig ar gyfer gwaith mewn gwasanaeth neu faes polisi penodol.

**8.27** Roedd gennym ddiddordeb hefyd yn y dystiolaeth a gasglwyd ar gyllidebau ar sail rhyw a'r asesiad o'r anghenion ar sail rhyw. Mae'r ddau yn rhoi golwg bras ar y duedd anymwybodol neu hanesyddol o fewn blaenoriaethau'r gwasanaeth ac anghenion a blaenoriaethau gwahanol y ddau ryw.

**8.28** Mae'r asesiad o'r anghenion ar sail rhyw yn golygu darganfod anghenion gwahanol dynion a menywod. Fe'i diffinnir yn 'Fifty voices are better than one' - Combating social exclusion and gender stereotyping in Gellideg, in the South Wales Valleys sef adroddiad gan Grwp Sefydliad Gellideg ac Oxfam GB fel a ganlyn:

*"Fe ddaeth yn amlwg bod gan ferched a dynion o bob oed bryderon tebyg a'u bod yn wynebu problemau tebyg, ond bod eu 'safbwynt' ar y rhain yn wahanol. Mae yna gytundeb anysgrifenedig – ac nas lleferir yn aml – yn bodoli, a elwir yn 'gontract y rhywiau', sy'n nodi mai gwaith merch yn bennaf yw gofalu am y teulu, ac mai gwaith dyn yw ennill cyflog."*

### **Gellideg – Mynd i'r afael ag anghenion ar sail rhyw**

Aethom i ymweld â grŵp ysbrydoledig Sefydliad Gellideg ym mis Mawrth 2004.

Ystad fawr o dai yn nwylo'r awdurdod lleol ym Merthyr Tudful yw Gellideg. Ym 1998, penderfynodd chwech o'r mamau a oedd yn byw ar yr ystad fynd ati i fynd i'r afael â'r problemau a wynebai eu cymuned. Teimlent yn rhwystredig gyda'r diffyg cyfleoedd oedd ar gael ar gyfer eu plant a'r lefelau cynyddol o ddibyniaeth ar gyffuriau yn yr ardal. Ffurfiwyd Grwp Sefydliad Gellideg a dechreusant holi preswylwyr eraill sut y gallent newid y sefyllfa fel na fyddent yn meddwl mwyach mai'r peth gorau am Gellideg oedd 'y ffordd allan'.

'Our Community to Create' yw arwyddair Grŵp Sefydliad Gellideg heddiw. Cynhaliodd y grŵp asesiad o anghenion merched a dynion gyda chymorth Oxfam GB er mwyn sicrhau bod y gwaith a gâi ei wneud yn diwallu anghenion y gymuned.

Bwriad yr asesiad o anghenion ar sail rhyw oedd darganfod pa rwystrau gwirioneddol a wynebai'r preswylwyr, er enghraifft, wrth geisio dod o hyd i wasanaethau, addysg, hyfforddiant a gwaith. Bu'n fodd i alluogi'r Grŵp i ddarganfod pa fath o fentrau a allai gynorthwyo i chwalu'r rhwystrau hynny.



Cafodd yr asesiad ei wneud gan ddefnyddio technegau 'Gwerthuso Cyfranogol' (Participatory Appraisal), sef techneg y gwyddai Oxfam ei bod wedi'i defnyddio'n llwyddiannus dramor. Cafodd tîm craidd yn cynnwys cydgysylltydd y Grwp, cynorthwy-ydd y prosiect a dau weithiwr ieuentid, eu hyfforddi i gynnal asesiad o anghenion ar sail rhyw a thechnegau Gwerthuso Cyfranogol. Yna aed ati i holi preswylwyr un ac un, gan ddefnyddio nifer o dechnegau gwerthuso cyfranogol i roi cychwyn ar bethau. Holwyd pobl ifanc, pobl hŷn, dynion a menywod am eu barn. Dros gyfnod o bedwar mis targedwyd pobl anodd eu cyrraedd ac edrychwyd ar faterion yn ymwneud â gwaith a hyfforddiant, diffyg hunanbarch, disgwyliadau isel a gofal plant. Dysgodd y Grŵp lawer o'r broses a bu'r canlyniadau yn fodd i newid eu ffordd o feddwl.

Dangosodd yr asesiad fod yna wahaniaethau pwysig ar sail oed a rhyw yng nghredoau ac agweddau pobl at faterion megis trosedd, gofal plant, addysg, hyfforddiant a gwaith a derbyn budd-daliadau.

Ymhlith y gwersi a ddysgwyd o'r asesiad oedd:

- Peidio â syrthio i'r trap stereoteipio ar sail rhyw
- Sicrhau bod pawb yn cael ei gynnwys a bod pawb yn deall anghenion gwahanol bobl. Golyga hyn annog y gwŷr i gymryd mwy o ran, nid y menywod yn unig. Nid oedd y Grŵp wedi ystyried ar y dechrau y gallai clwb ar ôl ysgol elwa o gael gweithiwr ieuentid a oedd yn ddyn i weithio gyda'r bechgyn. Mae'r bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yng Ngellideg wedi sicrhau rhaniad cyfartal rhwng dynion a menywod wrth ymgynghori.
- Edrych ar unrhyw gynlluniau at y dyfodol drwy lygaid dynion a menywod, yr hen a'r ifanc.
- Herio stereoteipio yn ifanc, er enghraifft, ni fyddai 'grŵp ti a fi' ar gyfer rhieni, gofawyr a phlant yn eithrio neb lle gallai 'grŵp mam a'i phlentyn' wneud hynny. Bu'r dosbarthiadau iechyd rhyw a gynhaliwyd gan y Grŵp, lle trefnwyd ymweliadau i'r clinig iechyd lleol i ddysgu am yr opsiynau o ran dulliau atal cenhedlu, yr un mor boblogaidd ymhlith bechgyn â merched.
- Peidiwch â barnu pobl. Er enghraifft, gallai rhywun a fu â record droseddol yn y gorffennol am fân drosedd fod yn gaffaeliad fel gweithiwr cymunedol

- Gwell ymgynghori yn anffurfiol ac yn gyfrinachol. Yn eu cartrefi eu hunain, roedd pobl yn barod i siarad am faterion ond aflwyddiannus iawn fu'r ymdrechion i gael pobl ynghyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus mwy o faint.

Ym mis Mawrth 2002 derbyniodd Grŵp Sefydliad Gellideg arian Amcan 1 am dair blynedd ac eisoes mae'r newidiadau i'w gweld. Mae ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau ar gael yn awr i breswylwyr Gellideg. Yn eu plith y mae fflat i bobl ifanc alw heibio, ystafelloedd TG, ardal chwaraeon i 'chwarae o gwmpas', 'canolfan byw'n iach', gwasanaeth rhoi cyngor ar dai, budd-daliadau, undeb credyd a diogelwch cymunedol, a nifer o glybiau, dosbarthiadau a gweithgareddau hamdden ar gyfer pob grŵp oed. Y preswylwyr sy'n gyfrifol am reoli'r holl waith, gan gynnwys eu partneriaethau gyda nifer o gyrff eraill. Mae gan y grŵp yn awr 17 aelod o staff, gan gynnwys pump o bobl ifanc o'r ystad sy'n cael eu hyfforddi i fod yn weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymunedol.

Mae'r Grŵp yn dal i fod yn grŵp 'ar lawr gwlad' yn ymateb i anghenion y preswylwyr. Mae'n dal i ddysgu hefyd ac mae pobl yn dal i feddwl am syniadau i wella pethau eto. Mae'n gynnar i asesu effaith tymor hir yr asesiad o'r anghenion a gweithgareddau'r grŵp ond mae Sefydliad Joseph Rowntree yn gweithio ar werthusiad ohono. Dywedodd Coletter Watkins, Cydgysylltydd y Grŵp:

*"I gychwyn roedd hi'n anodd cael pobl i gredu y gallai pethau newid, ond nawr mae pobl yn dechrau credu y gellir gwneud rhywbeth."*

**8.29** Rhoddodd Grŵp Cyllidebau ar Sail Rhyw, Cymru gyflwyniad gerbron ein cyfarfod yn mis Rhagfyr 2003. Mae Cyllidebu ar sail Rhyw yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â llunio polisïau a darparu gwasanaethau lle bo cydbwysedd yn y rhywiau o gyfeiriad ychydig yn wahanol i'r asesiad o anghenion ar sail rhyw. Mae'n canolbwyntio ar flaenoriaethau cyllido a sut y maent yn effeithio ar ddynion a menywod. Eglurodd yr Athro Teresa Rees yn ein cyfarfod ym mis Hydref 2003 fod y dull hwn wedi'i ddefnyddio'n eang mewn rhannau eraill o'r byd. Fe'i defnyddiwyd yng Nghanada, er enghraifft, i ddatblygu dyraniad 50/50 yn y gwariant.



## Cyllidebu ar sail rhyw – yr hyn y gall ei ddatgelu

Mae cyllidebau sgrinio iechyd cyfredol yn cael eu cyfeirio ar hyn o bryd i ddarganfod mathau o ganser sy'n effeithio ar fenywod; mae swm sy'n sylweddol lai ar gael i sgrinio canser y prostad a chanser y ceilliau o'i gymharu â sgrinio canser y fron.

Mae nifer o wledydd wedi cyllido ar sail rhyw ym meysydd chwaraeon a hamdden. Yn Awstralia, darganfuwyd bod lefelau defnyddio cyfleusterau a lefelau cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn wahanol iawn ar gyfer dynion a menywod a bechgyn a merched. Aethant ati i gymharu'r gwariant ar gynnal a chadw'r cyfleusterau hynny a gâi eu defnyddio yn bennaf gan ddynion a'r rheini a gâi eu defnyddio yn bennaf gan fenywod. (Er enghraifft, cost cynnal a chadw cae pêl-droed o'i gymharu â neuadd chwaraeon.)

**8.30** Credwn fod gan y ddau ddull hyn lawer i'w gynnig wrth ddatblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o'r hyn y mae gweithredu ar bolisi yn ei wneud ac i bwy; ac wrth ddatgelu a yw'r polisiau a'r blaenoriaethau gwario presennol yn gwbl niwtral yn y modd y cânt eu gweithredu.

**Argymhelliad 19:** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio annog defnyddio asesiad o anghenion ar sail rhyw a thechnegau gwerthuso cyfranogol wrth ddod o hyd i atebion cymunedol ar gyfer problemau.

**Argymhelliad 20:** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn treialu cyllidebu mewn maes polisi er mwyn asesu lefel y cydraddoldeb mewn dyraniadau ariannol, gyda golwg ar ymestyn y defnydd a wneir ohono drwy'r Cynulliad.

**8.31** Un o gyfyngiadau'r dulliau yn ymwneud â chydraddoldeb a amlinellwyd hyd yn hyn yw eu bod yn benodol i linyr penodol yn ymwneud â chydraddoldeb. Credwn fod gwerth i'r dull o dargedu llinyn arbennig oherwydd ei fod yn sicrhau y rhoddir sylw i faterion sy'n berthnasol i'r grwpiau hynny sy'n cael eu cwmpasu gan y llinyn hwnnw, ond mae hefyd yn fuddiol i feddwl am sut y gall cydraddoldeb gael ei ystyried yn gyffredinol.

**8.32** Edrychwyd ar ddau ganllaw sy'n ceisio gwneud hyn yn ein cyfarfod ym mis Tachwedd 2003: Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol; ac Erfyn Integreiddio Polisi'r Llywodraeth.

### **Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol**

Datblygwyd y Safon Cydraddoldeb fel canllaw i alluogi awdurdodau i brif ffrydio hil, yr iaith Gymraeg, rhyw ac anabledd yn rhan o bolisi ac arferion cynghorau ar bob lefel. Mae'n cynnig fframwaith y gall awdurdodau lleol brif ffrydio cydraddoldeb oddi mewn iddo wrth ddarparu gwasanaethau a chyflogi ym mhob agwedd ar waith y cyngor.

Amcanion y Safon Cydraddoldeb:

- Darparu fframwaith systematig er mwyn prif ffrydio cydraddoldebau
- Helpu awdurdodau lleol i ddiwallu eu goblygiadau o dan y ddeddf
- Integreiddio polisiau ac amcanion yn ymwneud â chydaddoldeb gyda Gwerth Gorau a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella
- Annog datblygu arferion gwrthwahanïaethol sy'n briodol i amgylchiadau lleol
- Darparu'r sail i fynd i'r afael â gwahaniaethu sefydliadol
- Darparu fframwaith i wella perfformiad dros gyfnod o amser

Mae pedwar maes penodol o weithgarwch a chyrhaeddiad o fewn y Safon:

- Arweiniad ac Ymrwymiad Corfforaethol
- Ymgynghori a Datblygu Cymunedol a Chraffu
- Darparu Gwasanaethau a Gofal i Gwsmeriaid
- Cyflogaeth a Hyfforddiant

Ceir yn y Safon restr wirio fesul lefel i'w gweithredu. Dyma'r lefelau:

- Ymrwymiad i bolisi cydraddoldeb cynhwysfawr
- Asesu ac ymgynghori
- Gosod amcanion a thargedau cydraddoldeb
- Systemau gwybodaeth a monitro yn erbyn targedau
- Cyflawni ac adolygu canlyniadau



**8.33** Tynnodd Naomi Alleyne, Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Denise Dewsnap, Rheolwr Cydraddoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sylw at fanteision y Safon o ran cydgysylltu gwaith ar faterion yn ymwneud â chydaddoldeb.

**8.34** Credwn fod Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol yn fecanwaith grymus i hybu materion yn ymwneud â chydaddoldeb o fewn Awdurdodau Lleol. Gresynwn felly nad yw'n orfodol a chredwn petai'n cael ei chysylltu â dangosydd perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol y byddai'n annog mwy i'w mabwysiadu ac y gwelid gwelliant ym mherfformiad cyffredinol awdurdodau lleol ym maes cydraddoldeb.

**Argymhelliad 21:** Rydym yn argymell bod Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol yn dod yn Ddangosydd Perfformiad ffurfiol ar gyfer awdurdodau lleol.


**8.35** Mae'r Erfyn Integreiddio Polisi yn cynnig cyfres o gwestiynau yn ymwneud â blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r dyletswyddau cyffredinol y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Cafodd yr Erfyn ei dreialu mewn rhai meysydd polisi yn ystod y Cynulliad Cyntaf, ond nid oedd yn orfodol. Y mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'.

**8.36** Credwn fod yr Erfyn yn fecanwaith defnyddiol i sicrhau bod blaenoriaethau allweddol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi. Byddem felly yn disgwyl iddo fod yn orfodol ac i sampl o enghreifftiau gael eu gwirio er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

**8.37** Wrth ailgynllunio'r Erfyn gobeithiwn y bydd mwy o sylw yn cael ei roi i brif ffrydio cydraddoldeb. Roedd y fersiwn a welsom ni yn canolbwyntio mwy ar ddatblygu cynaliadwy ac ni châi materion yn ymwneud â chydaddoldeb gymaint o sylw ag y gellid ei roi iddynt.

**Argymhelliad 22:** Rydym yn argymell bod Erfyn Integreiddio Polisi Llywodraeth Leol yn cael ei adolygu, ac y dylai'r adolygiad sicrhau ei fod yn rhoi'r sylw priodol i faterion yn ymwneud â chydaddoldeb.

**8.38** Cyflwynodd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol restr wirio ddefnyddiol iawn ar brif ffrydio cydraddoldeb hiliol yn rhan o'i ymateb i'r adolygiad hwn a pharatôdd y Comisiwn Cyfle Cyfartal lyfryn gwych yn amlinellu



nifer o ganllawiau cydraddoldeb. Credwn y dylai'r holl ganllawiau a amlinellwyd yn yr adran hon, yn ogystal â rhai eraill wedi hynny, gael eu dwyn ynghyd i roi i'r staff becyn o ganllawiau i'w defnyddio wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

**Argymhelliad 23:** Rydym yn argymhell bod becyn o ddulliau gweithredu, rhestri gwirio a chanllawiau ar gydraddoldeb yn cael ei ddatblygu. Dylai gael ei dreialu gan un neu ragor o is-adrannau'r Cynulliad ac yna ei gyflwyno i bob aelod o'r staff.

## Dulliau gweithredu

**8.39** Darn olaf y jig-so wrth roi i bobl yr hyn sydd ei angen arnynt i ddelio â chydraddoldeb yn effeithiol yw bod yn ymwybodol o rai dulliau gweithredu all gael eu defnyddio ganddynt i newid pethau.


**8.40** Mae caffael yn un dull gweithredu allweddol o brif ffrydio cydraddoldeb. Mae'r gwariant blynyddol ar gaffael gan y sector cyhoeddus yng Nghymru dros £3 biliwn. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 40% o gyllideb y Cynulliad ac yn cynrychioli 11% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) Cymru. O ganlyniad, mae'r modd y mae'r buddsoddiad enfawr hwn yn cael ei wario yn hollbwysig i Gymru, ei phobl, ei heconomi a'i hamgylchedd.

**8.41** Yn 2001 a 2002 buom yn edrych i weld sut yr oedd y Cynulliad yn prif ffrydio cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy yn rhan o'r system gaffael. Roedd yn dda gennym weld datblygu cod ymarfer gwirfoddol y mae gofyn i gyflenwyr potensial gytuno iddo. Dyma'r amcanion craidd a amlinellir yn y Cod:

- Datblygu economi ffyniannus ac iach
- Hybu cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal
- Coleddu a diogelu'r amgylchedd er mwyn ei gadw'n iach ac amddiffyn ei amrywiaeth biolegol i'n cynnal ni i gyd

**8.42** Cefnogwyd gennym ehangu'r Cod i gyrrff sy'n derbyn grantiau ond ni chawsom unrhyw wybodaeth bellach am hyn ers mis Rhagfyr 2002 pan ofynnwyd am gyngor cyfreithiol.





**8.43** Yn ein cyfarfod ym mis Mawrth 2004 trafodwyd prif ffrydio cydraddoldeb gyda chynrychiolwyr Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG. Roedd y cyflwynwyr yn glir iawn eu bod yn disgwyl i'r Cynulliad osod y cyd-destun strategol ar gydraddoldeb yn eu gwaith ac y dylai hyn gael ei wneud yn y fath fodd y byddai'n rhaid ei roi ar waith. Dywedodd Phil Jenkins, Awdurdod Datblygu Cymru:


*"Mae'r cymhelliad yno i Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth ond mae angen cyfarwyddyd clir, yn cynnwys mwy nag ychydig linellau, ynglyn â'r canlyniad sy'n ddisgwyliedig. Dylai pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fod yn gyfrifol yn unigol am benderfynu sut y bydd yn mesur targedau ond y Cynulliad ddylai ddarparu'r cyd-destun."*

**(Phil Jenkins, Awdurdod Datblygu Cymru - Chwefror 2004)**

**8.44** Pwysleisiodd Huw Jones, Prif Weithredwr – Cyngor Chwaraeon Cymru, hefyd yr angen am gyfeiriad clir gan y Cynulliad. Esboniodd na ellid mynd i'r afael â'r diffygion o ran cyflwyno cydraddoldeb ond petai eglurder ynglŷn â'r hyn yr oedd disgwyl i'r sefydliad, a'r bobl a oedd yn ei arwain, ei gyflawni mewn perthynas â chydraddoldeb.

**8.45** Credwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatgan yn eglur yr hyn y mae am i'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ei gyflawni mewn perthynas â chydraddoldeb. Gwnaed hyn yn llwyddiannus mewn perthynas â chyflog cyfartal, lle'r oedd llythyron cylch gorchwyl Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff gynnal archwiliadau cyflog cyfartal. Gallai hynny gael ei ddefnyddio hefyd gyda materion yn ymwneud â chydraddoldeb.

**8.46** Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghori gan awdurdodau lleol hefyd yn mynegi diddordeb yn y cyfeiriad strategol y mae'r Cynulliad am ei bennu ar gydraddoldeb:



*"Hoffwn fodd bynnag gael mwy o gyswllt gyda'r Cynulliad a chael gwell dealltwriaeth o'r cyfeiriad y mae'n anelu ato a'i waith ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb."*

**Ymateb i'r ymgynghori gan Swyddog Cydraddoldeb a Mynediad –  
Cyngor Sir Fynwy**

*"Mae'r Cynulliad hefyd yn ei gwneud hi'n glir bod disgwyliad i'r Awdurdodau Lleol ystyried prif ffrydio cydraddoldeb yn eu cynlluniau a'u prosesau ond weithiau mae prinder canllawiau ar sut y gall Awdurdod wneud hyn."*

**Cyngorydd Cydraddoldeb – Cyngor Rhondda Cynon Taf**



**PENNOD 9**

**SICRHAU CYNNYDD – MONITRO  
A GWERTHUSO**





## PENNOD 9 – SICRHAU CYNNYDD – MONITRO A GWERTHUSO

**9.1** Mae ein pennod olaf yn canolbwyntio ar un o'r agweddau pwysicaf ac anoddaf ym maes prif ffrydio cydraddoldeb: monitro a gwerthuso'r hyn a gyflawnwyd.

**9.2** Rydym eisoes wedi datgan nad yw prif ffrydio yn nod ynddo'i hun ond, yn hytrach, yn fecanwaith i wella'r canlyniadau i bawb. Dylai sefydliad sydd wedi prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'i waith fedru cyfeirio at welliannau penodol o ran y gwasanaethau a ddarperir a'r broses o wneud polisiau.

**9.3** Mae rôl hanfodol strategaeth cydraddoldeb yn glir yn y cyd-destun hwn. Heb amcanion penodol, ni ellir mesur gwelliannau. Ar hyn o bryd mae bron yn amhosibl asesu'n briodol a yw'r Cynulliad yn ystyried cydraddoldeb yn effeithiol yn ei waith; neu a yw'r ystyriaeth honno yn gwneud unrhyw wahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru. Rydym am weld datblygu amcanion ystyrlon ar gyfer pob maes polisi neu wasanaeth a ddarperir y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdano. Dylai'r amcanion hyn gyfeirio at ymgorffori'r broses brif ffrydio; a gwneud gwelliannau penodol i fywydau pobl Cymru. Bydd y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hyn yn cael ei amlinellu yn Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb.

**9.4** Yn ystod ychydig flynyddoedd cyntaf y Cynulliad, cynhaliwyd archwiliad cydraddoldeb blynyddol, er na chafodd mo'i wneud y llynedd. Yn gyfochrog â'r archwiliad, roedd gofyn i'r Cynulliad baratoi hefyd Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb rydym eisoes wedi cyfeirio ato.

**9.5** Roeddem yn siomedig â'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Adroddiad Blynyddol diwethaf. Y rheswm am hyn yn bennaf oedd ei fod wedi canolbwyntio ar brosesau; na chafwyd gwybodaeth ar sail cyfres gydlynol o amcanion; ei fod wedi amlygu gwahaniaethau mawr rhwng gwahanol rannau o'r Cynulliad ac na chafwyd fawr ddim synnwyr o ddatblygiad flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**9.6** Rhaid i'r Adroddiad Blynyddol a'r prosesau o archwilio cydraddoldeb gael eu rhoi yn eu lle. Yn eu habsenoldeb nid oes gennym syniad clir o'r sefyllfa ac ni allwn gynllunio i wella.

**9.7** Credwn y dylai'r prosesau gael eu dwyn ynghyd gyda'r broses archwilio yn sylfaen ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Dylai'r Adroddiad Blynyddol gyfeirio at yr amcanion a nodwyd yn y strategaeth ar gydraddoldeb a dylai gynnwys adroddiadau gan Weinidogion unigol ar yr hyn a gyflawnwyd o fewn eu portffolio; adroddiad gan Bwyllgor y Tŷ ar weithgareddau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ac adroddiadau ar bolisïau corfforaethol megis Adnoddau Dynol. Dylai pob maes ymateb ar ffurf adroddiad safonol er cysondeb.

**Argymhelliad 24:** Rydym yn argymhell y dylai adroddiad blynyddol y Cynulliad ar gydraddoldeb ganolbwyntio ar adrodd ar yr amcanion a amlinellwyd yn y strategaeth ar gydraddoldeb. Dylai hefyd gynnwys adroddiadau gan Weinidogion unigol ar yr hyn a gyflawnwyd o fewn eu portffolio; adroddiad gan Bwyllgor y Tŷ ar weithgareddau'r Cynulliad yn gorfforaethol ac adroddiadau ar bolisïau corfforaethol megis Adnoddau Dynol.


**9.8** Rydym yn cydnabod na all yr argymhelliad uchod gael ei weithredu'n llawn hyd nes y bydd y Cynulliad yn datblygu strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb, ond disgwyliwn i bob plaid weithio tuag at y model sydd wedi'i nodi uchod cyn hynny.

**9.9** Credwn hefyd fod angen syniad cliriach o lawer ar y Cynulliad ynglyn â sylfeini cydraddoldeb. Mynegwyd y farn hon hefyd gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal a chyfeiriwyd at hyn yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghori.

*"Rhaid gwneud dadansoddiad annibynnol o holl swyddogaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn asesu lle mae anghydraddoldeb."*

**Ymateb gan Heddlu Gogledd Cymru**

**9.10** Dylai'r archwiliad ar gydraddoldeb ddarparu'r wybodaeth sylfaenol rydym yn chwilio amdani, ond fel y dywed yr ymateb i'r ymgynghoriad gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal, dylai'r dull o gynnal yr archwiliad fod



wedi'i adolygu flwyddyn yn ôl ac nid yw'n glir faint o gynnydd a wnaed yn datblygu gwell methodoleg o ystyried y problemau â'r lefelau staffio yn yr Uned Polisi Cydraddoldeb.

**9.11** Credwn fod gwybodaeth sylfaenol yn hanfodol i gynhyrchu strategaeth ystyrlon ar gydraddoldeb. Byddai archwiliad a gomisiynwyd yn allanol eleni yn rhoi gwybodaeth y gellid meincnodi yn ei herbyn a gallai datblygu methodoleg archwilio a allai gael ei defnyddio gan staff mewnol yn y dyfodol fod yn rhan o'r contract hwnnw.

**Argymhelliad 25:** Rydym yn argymhell y dylid cynnal archwiliad brys ar gydraddoldeb, wedi'i gomisiynu'n allanol a chan neilltuo digon o adnoddau ar ei gyfer, er mwyn darparu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer strategaeth cydraddoldeb. Dylai hefyd ddarparu methodoleg i staff mewnol ei defnyddio er mwyn casglu gwybodaeth gymharol mewn blynyddoedd i ddod ac adolygu a gwerthuso'n rheolaidd hynt hyn o fewn y Cynulliad.

## Rôl y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**9.12** Yn ein cyfarfod ym mis Hydref 2003 trafodwyd rôl y Pwyllgor hwn wrth fonitro perfformiad y Cynulliad ar gydraddoldeb a daethpwyd i'r casgliad y dylai fod inni swyddogaeth graffu allweddol. Edrychwyd ar y mater hwn eto yn ein cyfarfod anffurfiol ym mis Mawrth 2004 a dechreuwyd braslunio sut y dylid rhoi hyn ar waith:

- **Dwyn Gweinidogion i gyfrif yn uniongyrchol** – byddwn yn dwyn Gweinidogion i gyfrif am gyflwyno cydraddoldeb o fewn eu portffolios. Byddwn yn anelu at wahodd pob Gweinidog i fod yn bresennol mewn o leiaf un cyfarfod bob blwyddyn er mwyn bod yn destun craffu ar fater yn ymwneud â chydraddoldeb sy'n dod o fewn ei bortffolio/ei phortffolio.
- **Lleihau nifer y cyflwyniadau er gwybodaeth** – byddwn yn parhau i wahodd amryw siaradwyr i ddod i'n cyfarfodydd ond bydd eu cyfraniadau yn cael eu cyfeirio at hybu ein gwaith craffu neu ddatblygu polisi.

**9.13** Ym mis Mehefin 2002 cyhoeddwyd adroddiad a gomisiynwyd gan y Comisiynau cydraddoldeb statudol. Bwriad yr adroddiad, yn dwyn y teitl 'Dyletswydd Diamod', oedd asesu effaith y ddyletswydd cydraddoldeb yn Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad ar sawl achlysur ac wedi cadarnhau ei argymhellion.

**9.14** Cyfeiriwyd at rai o'r argymhellion hyn mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn ond mae rhai yn berthnasol i rôl y Pwyllgor hwn a'r pwyllgorau pwnc. Er enghraifft, awgrymwyd yn 'Dyletswydd Diamod' y dylid 'gwirio' blaenraglenni gwaith pwyllgorau pwnc o safbwynt cydraddoldeb ac y dylai'r pwyllgorau pwnc nodi yn eu hadroddiadau blynyddol sut y mae eu rhaglen waith wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan Adran 120.

**9.15** Amlinellwyd syniadau tebyg yn yr ymateb a gafwyd i'r ymgynghori gan ELWa:

*"Gallai sylw'r Cynulliad ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb gael ei wella drwy gyflwyno nifer o fesurau. Gellid ei gwneud hi'n ofynnol i bwyllgorau pwnc fabwysiadu dull mwy trylwyr o graffu ar ddimensiynau yn ymwneud â chydraddoldeb wrth ymdrin ag eitemau yn rhan o'u rhaglenni gwaith a gallai'r polisiau a'r strategaethau newydd gynnwys mwy o wybodaeth am eu hagweddau dosbarthu."*

**(Ymateb i'r ymgynghori gan ELWa)**

**9.16** Ysgrifennwyd at bwyllgorau eraill y Cynulliad ym mis Awst 2003 i ofyn iddynt adrodd ar sut yr oeddent yn mynd ati i ystyried cydraddoldeb wrth lunio eu blaenraglenni gwaith; sut yr oeddent yn bwriadu ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn eu gwaith yn fwy cyffredinol a pha gyngor neu gymorth ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol.

**9.17** Trafodwyd yr ymateb yn ein cyfarfod ym mis Chwefror 2004 ac, at ei gilydd, siom a gawsom. Er bod rhai pwyllgorau wedi cyfeirio at rai enghreifftiau o waith gwych yr oedd yna, at ei gilydd, brinder manylion ac mewn rhai achosion diffyg ymwybyddiaeth bod y Pwyllgor dan sylw yn edrych ar faterion pwysig yn ymwneud â chydraddoldeb yn y maes a





nodwyd. Dangosai'r ymatebion barodrwydd i wneud mwy i brif ffrydio cydraddoldeb a chytunai nifer o bwyllgorau y byddai mwy o gymorth a chanllawiau yn ddefnyddiol.

**Argymhelliad 26:** Rydym yn argymell bod pwyllgorau eraill y Cynulliad yn cyflwyno blaenraglenni gwaith strategol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystyried a yw'r flaenraglen waith yn rhoi digon o ystyriaeth i gydraddoldeb ac yn gwneud sylwadau fel y bo'n briodol. Ymhellach, dylai adroddiad blynyddol pob pwyllgor pwnc gynnwys adran yn nodi sut y mae eu gweithgaredd dros y flwyddyn flaenorol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd a bennwyd mewn perthynas â chydraddoldeb yn Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 27:** Rydym yn argymell paratoi rhestr wirio syml o gwestiynau, yn seiliedig ar y pecyn canllawiau a awgrymwyd yn argymhelliad 23, i'w defnyddio gan bwyllgorau. Dylai'r rhestr wirio hon gael ei llunio drwy ymgynghori â Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.



## ATODIAD A – AELODAU'R PWYLLGOR

ENW	DYDDIADAU	PLAID	ETHOLAETH
Gwenda Thomas (Cadeirydd)	Mehefin 03 - hyd nawr	Llafur	Castell-nedd
Lorraine Barrett	Mehefin 03 - hyd nawr	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
David Davies	Mehefin 03 - Ebrill 04	Ceidwadwyr	Mynwy
Lisa Francis	Mehefin 03 - Ionawr 04	Ceidwadwyr	Canolbarth a Gorllewin Cymru
John Griffiths	Mehefin 03 - hyd nawr	Llafur	Dwyrain Casnewydd
Mark Isherwood	Mai 04 - hyd Ionawr 04	Ceidwadwyr	Gogledd Cymru
Helen Mary Jones	Mehefin 03 - hyd nawr	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Laura Anne Jones	Ionawr 04 - hyd nawr	Ceidwadwyr	Dwyrain De Cymru
Huw Lewis	Mehefin 03 - hyd nawr	Llafur	Merthyr Tudful a Rhymni
Jenny Randerson	Mehefin 03 - hyd nawr	Democratiaid Rhyddfrydol	Canol Caerdydd
Catherine Thomas	Mehefin 03 - hyd nawr	Llafur	Llanelli
Leanne Wood	Mehefin 03 - hyd nawr	Plaid Cymru	Canol De Cymru

## ATODIAD B - CYFEIRIADAU

### Manylion am gyfarfodydd y Pwyllgor

Mae rhestr lawn o bapurau Pwyllgor ar gael ar -  
<http://www.cymru.gov.uk/keypubassemequalcomm2/index-w.htm>

- 10 Gorffennaf 2003 – Cylch gorchwyl cychwynnol ar gyfer adolygiad polisi ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb
- 2 Hydref 2003 – Papur ar ganlyniadau'r ymgynghori, rhaglen amlinellol ar gyfer yr adolygiad a chyflwyniad yn dwyn y teitl 'Beth yw Prif Ffrydio?' gan yr Athro Teresa Rees.
- 6 Tachwedd 2003 – Tystiolaeth ar nifer o ddulliau o brif ffrydio a'r ystyriaeth a roddwyd i Bedwerydd Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb
- 11 Rhagfyr – Tystiolaeth ar yr arferion ymgynghori a mynediad i adeilad newydd y Cynulliad
- 5 Chwefror – Papur ar y materion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer yr adolygiad a chrynodeb o'r ymatebion gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad
- 4 Mawrth – Tystiolaeth gan Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG.

### Ysgrifenedig

Rhestrir isod y prif dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor:

- Nodau ac Amcanion Grŵp Cyllidebau ar Sail Rhyw, Cymru - EOC(2) 05-03(p9) - 11 Rhagfyr 2003
- Julia Annand, Clerc y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon – ymateb i'r cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill yn prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'u gwaith
- Prosiect Adeilad Newydd y Cynulliad: y cefndir i'r ymgynghori - EOC(2) 05-03(p12) - 11 Rhagfyr 2003

- Y Comisiwn Archwilio: Directions in diversity: Current opinion and good practice report - EOC(2) 01-04(p03) - 5 Chwefror 2004
- Y Comisiwn Archwilio: Equality and Diversity report EOC(2) 01-04(p02) - 5 Chwefror 2004
- Y Comisiwn Archwilio: Human Rights: Improving public service delivery - EOC(2) 01-04(p04) - 5 Chwefror 2004
- Kate Bennett, Cyfarwyddwr, Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru – Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Peter Black AC, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes - ymateb i'r cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill yn prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'u gwaith
- Sandy Blair, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Niall Crowley, Prif Swyddog Gweithredol, Awdurdod Cydraddoldeb Iwerddon - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Glyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau - ymateb i'r cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill yn prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'u gwaith
- Janet Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio - ymateb i'r cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill yn prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'u gwaith
- Anabledd Cymru – ymgynghoriad ar adeilad newydd y Cynulliad - EOC(2) 05-03(p13) - 11 Rhagfyr 2003
- Jackie Dix, Swyddog Polisi Age Concern - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Materion sy'n dod i'r amlwg yn Adolygiad y Pwyllgor ar brif ffrydio cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad - EOC(2) 01-04 (p10) - 5 Chwefror 2004

- Comisiwn Cyfle Cyfartal – Beth yr Prif Ffrydio? Llyfryn - EOC(2) 03-03(p9) - 2 Hydref 2003
- Ymgyrch Cyflog Teg: Adroddiad Gwerthuso - EOC(2) 04-03(p5) - 6 Tachwedd 2003
- Yr adroddiad blynyddol ar gydraddoleb: esboniad - EOC(2) 04-03(p7) - 6 Tachwedd 2003
- Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal - EOC(2) 04-03(p8) - 6 Tachwedd 2003
- '50 voices are better than one' – adroddiad gan Grŵp Sefydliad Gellideg ac Oxfam - EOC(2) 04-03(p12) - 6 Tachwedd 2003
- Margaret Foster, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Bailjit Gill, Dirprwy Bennaeth ac Arweinydd y Tîm Dyletswydd Gyhoeddus, Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Janice Gregory AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio - ymateb i'r cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill yn prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'u gwaith
- Dr Chris Hallett, Ymgynghorydd ar Iechyd y Cyhoedd - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Judith Hardisty, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Mr A Holland, Prif Swyddog Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Grenville Jackson, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyfathrebu, ELWa - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Phil Jenkins, Rheolwr Datblygu Rhaglenni Awdurdod Datblygu Cymru - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor

- Amelia John, Pennaeth Polisi a Datblygiad, Comisiwn Hawliau Anabledd - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad - ymateb i'r cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill yn prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'u gwaith
- Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus - ymateb i'r cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill yn prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'u gwaith
- Uwcharolygydd Frazer Jones, Heddlu Gogledd Cymru - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Dilys Jouvenat, Cynghorydd Gweithredol ar Gydraddoldeb, Cyngor Rhondda Cynon Taf - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Shehla Khan, Rheolwr Cynorthwyol, Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig, Abertawe - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Rebecca Lockwood, Swyddog Cydraddoldeb a Mynediad, Cyngor Sir Fynwy - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Prif ffrydio yng ngwaith y Pwyllgorau eraill - EOC(2) 05-03(p11) - 11 Rhagfyr 2003 a 5 Chwefror 2004
- Prif ffrydio datblygu cynaliadwy a chydraddoldeb ym mholisi'r Cynulliad - EOC(2) 04-03(p11) - 6 Tachwedd 2003
- Ruth Marks, Prif Weithredwr, Chwarae Teg - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- David Melding AC, Cadair y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - ymateb i'r cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill yn prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'u gwaith
- Sandy Mewies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol - ymateb i'r cais am wybodaeth am sut y mae Pwyllgorau eraill yn prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan o'u gwaith

- Gareth Morgan, Ysgrifennydd, Mankind Initiative Wales - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Marilyn Pitman, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Adroddiad blynyddol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gydraddoldeb - EOC(2) 04-03(p10) - 6 Tachwedd 2003
- Teresa Rees/Sian Swann, Partneriaeth Cydraddoldeb Ewropeaidd (Chwarae Teg) - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Crynodeb o ymatebion gan Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a'r GIG - EOC(2) 01-04 (p5) - 4 Mawrth 2004
- Lyn Thomas, Prif Swyddog Corfforaethol a Phennaeth Personèl, Cyngor Sir Merthyr Tudful - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gydraddoldeb - EOC(2) 04-03(p9) - 6 Tachwedd 2003
- Beth yw cyllidebau i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau? Cyflwyniad gan Grŵp Cyllidebau ar Sail Rhyw, Cymru - EOC(2) 05-03(p10) - 11 Rhagfyr 2003
- Meleri Wyn Williams, Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor
- Paul Williams, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg - Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor

## Ar lafar

Bu llawer o'n trafodaethau yn berthnasol i'r adolygiad hwn ond rhestrir isod y prif sesiynau casglu tystiolaeth a drefnwyd yn bennaf i ddarparu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn:



- Yr Athro Teresa Rees – Beth yw prif ffrydio? – Cyfarfod Pwyllgor 2 Hydref 2003
- Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol – Pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb – Cyfarfod Pwyllgor 6 Tachwedd 2003
- Charles Coombs, Uned Polisi Strategol – Erfyn Integrediddio Polisi – Cyfarfod Pwyllgor 6 Tachwedd 2003
- Naomi Alleyne a Denise Dewsnap, Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol – Cyfarfod Pwyllgor 6 Tachwedd 2003
- Adele Baumgardt, Sian Swann a Helen Buhaenko, Grŵp Cyllidebau ar Sail Rhyw, Cymru – Cyllidebau ar sail rhyw - 11 Rhagfyr 2003
- Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus – Ymgynghori ar fynediad i adeilad newydd y Cynulliad - 11 Rhagfyr 2003
- David Richards, Prif Swyddog Cyllid a'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer Prosiect Adeilad y Cynulliad – Ymgynghoriad ar fynediad i adeilad newydd y Cynulliad - 11 Rhagfyr 2003
- Richard Wilson, Prif Syrfëwr Ystadau a Phrosiect Adeilad y Cynulliad - Ymgynghoriad ar fynediad i adeilad newydd y Cynulliad - 11 Rhagfyr 2003
- Rhian Davies and Graham Findlay, Anabledd Cymru - Ymgynghoriad ar fynediad i adeilad newydd y Cynulliad - 11 Rhagfyr 2003
- Lionel Curtis (cynrychiolydd Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru) a Lorraine Howells, Grŵp Cynghori ar Fynediad - Ymgynghoriad ar fynediad i adeilad newydd y Cynulliad - 11 Rhagfyr 2003
- Will Bee, y Comisiwn Hawliau Anabledd - Ymgynghoriad ar fynediad i adeilad newydd y Cynulliad - 11 Rhagfyr 2003

- Doug Elliott ac Amanda Neill, Comisiwn Archwilio Cymru – monitro a gwerthuso cynnydd ar hybu cydraddoldeb - 5 Chwefror 2004
- Phil Jenkins, Rheolwr Datblygu Rhaglenni, Awdurdod Datblygu Cymru – prif ffrydio o bersbectif Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a'r GIG - 4 Mawrth 2004
- Huw Jones, Prif Weithredwr a Sara Butlin, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Datblygu Lleol, Cyngor Chwaraeon Cymru - prif ffrydio o bersbectif Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a'r GIG - 4 Mawrth 2004
- Tracey Good a Voirrey Manson, Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG - prif ffrydio o bersbectif Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a'r GIG - 4 Mawrth 2004.

## Eraill

Cyfeiriwyd at nifer o ddogfennau eraill wrth baratoi'r adolygiad hwn a chafodd nifer ohonynt eu hystyried gan y Pwyllgor hwn cyn hynny. Rhestrir y dogfennau allweddol isod:

- 'An Absolute Duty: Equal Opportunities and the National Assembly for Wales' - Paul Chaney a Ralph Fevre
- 'Lifting Every Voice: A report on institutional racism in the National Assembly for Wales' - Roger MacKenzie
- Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Chrwydriaid – Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## ATODIAD C – GWYBODAETH DDEMOGRAFFIG AM WEITHLU'R CYNULLIAD A'R CYNNYDD A WNAED WRTH WEITHIO TUAG AT Y TARGEDAU

### Materion i'w nodi ynglŷn â'r niferoedd hyn

A fydddechystal â nodi y ceir y wybodaeth am anabledd ac ethnigrwydd mewn perthynas â staff o'r ffurflenni a gwblheir yn wirfoddol.

Bydd gwybodaeth fwy cynhwysfawr ar gael unwaith y bydd system TG Adnoddau Dynol wedi'i chyflwyno. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2004.

Mae'r rhan gyntaf o'r atodiad yn cyflwyno gwybodaeth am ryw, ethnigrwydd ac anabledd o ddwy ffynhonnell: system rheoli gwybodaeth bresennol Adnoddau Dynol ac arolwg staff.

Yn yr ail ran o'r atodiad rhoddir gwybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Cynulliad. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar amryw arolygon.

Ceir yn y drydedd ran o'r atodiad wybodaeth sylfaenol am ddemograffeg poblogaeth Cymru.

---

### RHAN 1

Data o system rheoli gwybodaeth gyfredol Adnoddau Dynol

Ceir yn y tabl hwn wybodaeth o system rheoli gwybodaeth gyfredol Adnoddau Dynol

Staff	%
Dynion	45
Menywod	55
Pobl Anabl	0.1
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	2.2

(Ffynhonnell – Is-adran Adnoddau Dynol (Pobl) Cynulliad Cymru)



## Data o arolwg staff diweddar

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys gwybodaeth a gymerwyd o arolwg staff a wnaed ym mis Mawrth 2003 gan yr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. (Y gyfradd a ymatebodd i'r arolwg oedd 50-60 y cant.)

Mae hefyd yn cymharu'r canlyniadau yn erbyn y targedau a osodwyd gan y Comisiynydd Gwasanaeth Sifil ar gyfer recriwtio staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dyma'r lefelau y cyfeirir atynt yn y tablau:

GSU = Gwasanaeth Sifil Uwch (Pennaeth Is-adran neu uwch), Bandiau F a G = Graddfeydd 7 a 6 (Penaethiaid Cangen), Bandiau, D a E = HEO a SEO (Arweinwyr Tîm) Bandiau A i C = AA, AO a EO (Gweinyddwyr a rheolwyr y rheng gyntaf)

#### Rhyw

	% y menywod a gyflogwyd ar 31 Ion 00	% y menywod a gyflogwyd ar 31 Gorff 01	% y menywod a gyflogwyd ar 31 Mawrth 03	% y targedau i'w cyflawni erbyn Mawrth 05	% y gwahaniaeth rhwng y targedau a'r union ffigurau
<b>Graddfa*</b>					
GSU	25.6	25.5	28.1	35.6	-7.5
Bandiau F a G	33.0	35.0	39.3	50	-10.7
Bandiau D ac E	39.5	42.0	53.4	50	+3.4
Bandiau A i C	60.5	57.6	61.2	50	+11.2

#### Anabledd

	% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd	% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd	% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd	% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd% y bobl ag anabledd	% y gwahaniaeth rhwng y targedau a'r union ffigurau
<b>Graddfa*</b>					
GSU	3.5	4.4	4.2	3.3	-0.9
Bandiau F a G	3.1	2.8	4.4	3.5	-0.9
Bandiau D ac E	4.3	6.7	4.4	3.5	+0.9
Bandiau A - C	3.1	4.5	6.9	3.5	+1.4

#### Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

	% y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a gyflogwyd ar 31 Ion 00	% y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar 31 Gorff 01	% y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a gyflogwyd ar 31 Mawrth 03	% y targedau i'w cyflawni erbyn Mawrth 05	% y gwahaniaeth rhwng y targedau a'r union ffigurau
<b>Graddfa*</b>					
GSU	0.0	1.0	1.1	3.3	-2.2
Bandiau F a G	1.5	1.2	1.1	4.0	-2.9
Bandiau D ac E	1.0	1.2	0.6	4.0	-3.4
Bandiau A i C	1.4	1.7	1.1	4.0	-2.9

(Ffynhonnell - Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Adnoddau Dynol Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

## RHAN 2

Ceir yn y tabl hwn wybodaeth am allu holl staff y Cynulliad yn y Gymraeg, ac eithrio Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Mae wedi'i seilio ar wybodaeth a gafwyd yn 2000 ac arolwg a wnaed yn 2003.

	Nifer	%
Yn 2000, o gyfanswm o 3,452 staff:		
- yn meddu ar y gallu i ddelio ag ymholiadau cymhleth ar lafar yn Gymraeg	320	9.3
- yn meddu ar y gallu i ddrafftio deunydd ysgrifenedig cymhleth yn Gymraeg	233	6.7
Arolwg a wnaed yn 2003 (derbyniwyd 1,520 o ymatebion o gyfanswm o 2,329 a oedd yn bosibl):		
- yn barod i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg	304	13.1
- yn barod i ddelio â gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg	261	11.2

Ceir yn y tabl isod wybodaeth a gymerwyd o archwiliad o sgiliau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn unig, a wnaed y llynedd. O gyfanswm posibl o 215 aelod o'r staff cafwyd atebion gan 171.

	%
Cymraeg TGAU neu gyfatebol	44
Cymraeg Safon Uwch neu gyfatebol	26
Gradd yn y Gymraeg	25
Siarad Cymraeg – 'yn hollol gymwys'	38
Deall Cymraeg llafar – 'yn hollol gymwys'	41
Ysgrifennu Cymraeg – 'yn hollol gymwys'	29
Darllen Cymraeg – 'yn hollol gymwys'	39

## RHAN 3

Ceir isod rhywfaint o wybodaeth ddemograffig elfennol am Gymru, ar sail Cyfrifiad 2001:

	%
Cyfran y bobl o gefndir ethnig nad ydynt yn wyn yng Nghymru	2.1
Cyfran y bobl yng Nghaerdydd o gefndir ethnig nad ydynt yn wyn	8.4
Cyfran y boblogaeth sy'n ddynion	48.4
Cyfran y boblogaeth sy'n fenywod	51.6
Cyfran y bobl â salwch cyfyngus hirdymor	23.3
Cyfran y bobl 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg	20.8

(Ffynhonnell Cyfrifiad 2001: Hawlfraint y Goron)



## ATODIAD D – DADANSODDIAD O GANLYNIADAU AROLWG STAFF YN YMWNEUD Â CHYDRADDOLDEB


Bob blwyddyn bydd y Cynulliad yn cynnal arolwg staff sy'n ymdrin ag ystod eang o faterion. Mae'r arolwg yn gwahodd staff i nodi a ydynt yn cytuno'n bendant; yn cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; yn anghytuno neu'n anghytuno'n bendant â chyfres o ddatganiadau. Mae tri o'r datganiadau yn yr arolwg yn arbennig o berthnasol i brif ffrydio cydraddoldeb:

- Cwestiwn 47 – Mae fy Is-adran yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb yn ei pholisïau a'i gwasanaethau
- Cwestiwn 56 – Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i roi gwerth ar amrywiaeth ymhlith ei weithwyr
- Cwestiwn 57 – Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i wneud y sefydliad yn un sy'n ystyriol o deuluoedd


Mae'r tablau canlynol yn gosod yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn ôl oed, rhyw, ethnigrwydd ac anabled.

Noder, lle bo llai na deg o grŵp arbennig o bobl wedi ymateb i'r arolwg ni chynhyrchwyd data oherwydd bod maint y sampl yn rhy fach i roi canlyniadau dibynadwy. Mae hyn yn berthnasol i ymatebion a gafwyd gan staff sy'n perthyn i grwpiau o bobl dduon a Tsieineaid yn y tablau sy'n dangos yr ymatebion a gafwyd wedi'u rhannu ar sail ethnigrwydd.

**Mae fy Is-adran yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb yn ei pholisiau a'i gwasanaethau**




**Mae fy Is-adran yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb yn ei pholisiau a'i gwasanaethau**







**Mae fy Is-adran yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb yn ei pholisiau a'i gwasanaethau**




**Mae fy Is-adran yn dangos ymrwymiad i gydraddoldeb yn ei pholisiau a'i gwasanaethau**




Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i roi gwerth ar amrywiaeth ymhlith ei weithwyr




Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i roi gwerth ar amrywiaeth ymhlith ei weithwyr




**Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i roi gwerth ar amrywiaeth ymhlith ei weithwyr**




**Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i roi gwerth ar amrywiaeth ymhlith ei weithwyr**




**Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i wneud y sefydliad yn un sy'n ystyriol o deuluoedd**




**Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i wneud y sefydliad yn un sy'n ystyriol o deuluoedd**



**Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i wneud y sefydliad yn un sy'n ystyriol o deuluoedd**



**Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i wneud y sefydliad yn un sy'n ystyriol o deuluoedd**



## ATODIAD E – MANYLION AM Y CYDBWYSEDD RHWNG Y RHYWIAU MEWN DEDDFWRFEYDD RHYNGWGLADOL

Menywod mewn Seneddau yn seiliedig ar yr etholiadau diweddaraf: y Tŷ isaf neu un Tŷ – detholiad

Trefn	Gwlad	Cyfanswm	Menywod Fenywod	% sy'n
1	Rwanda	80	39	48.8
2	Sweden	349	158	45.3
3	Denmarc	179	68	38.0
4	Ffindir	200	75	37.5
5	Yr Iseldiroedd	150	55	36.7
6	Norwy	165	60	36.4
7	Ciwba	609	219	36.0
8	Gwlad Belg	150	53	35.3
9	Costa Rica	57	20	35.1
10	Awstria	183	62	33.9
11	Yr Almaen	603	194	32.2
15	De Affrica	399	119	29.8
17	Sbaen	350	99	28.3
25	Awstralia	150	38	25.3
32	Pacistan	342	74	21.6
34	Latfia	100	21	21.10
37	Canada	301	62	20.6
43	Slofacia	150	29	19.3
52	Y DU	659	118	17.9
68	UDA	435	62	14.3
77	Ffrainc	574	70	12.2
134	Siapan	480	34	7.1
154	Twrci	550	24	4.4
155	Madagascar	160	6	3.8
156	Mawritania	81	3	3.7
157	Haiti	83	3	3.7
158	Belize	30	1	3.3
159	Ynysoedd Marshall	33	1	3
160	Yr Aifft	454	11	2.4
161	Lebanon	128	3	2.3
162	Bangladesh	300	6	2.0
163	Vanuatu	52	1	1.9
164	Niger	83	1	1.2
165	Papiwa Gini Newydd	109	1	0.9
166	Yemen	301	1	0.3
167	Nid oes gan Bahrain, Kuwait, Micronesia, Nauru, Palau, Sawdi Arabia, Ynysoedd Solomon, Tonga, Tuvalu, Emiraethau Arabaidd Unedig yr un fenyw yn Aelod.			

(Ffynhonnell: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Women: statistics for International Women's Day. Seiliwyd y tabl ym mhapur Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar wybodaeth o gronfa ddata'r Undeb Rhyng-seneddol, Women in National Parliaments)

## ATODIAD F – RHESTR GYFLAWN O ARGYMHELLION

Rhif	Argymhelliad
1	Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r diffiniad uchod o brif ffrydio.
2	Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb. Dylai'r Strategaeth gael ei hadolygu'n rheolaidd fel y gall ymateb i lefelau cynyddol o ddarpariaeth a materion newydd yn ymwneud â chydraddoldeb.
3	Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i bwysio i ddatblygu un ddeddf cydraddoldeb a fydd yn sylfaen i holl waith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
4	Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad barhau i osod esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, ond lle nad yw'r Cynulliad yn arwain y ffordd, dylai ganfod enghreifftiau o arferion da ar draws y sector cyhoeddus ac annog cyrff cyhoeddus eraill i gyrraedd safon a fydd yn gyfatebol â'r safon orau.
5	Rydym yn argymell y dylai holl Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod camau'n cael eu cymryd o fewn eu portffolios i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio yn y meysydd polisi y maent yn gyfrifol amdanynt.
6	Rydym yn argymell bod y Bwrdd Gweithredol yn y Cynulliad yn rhoi arweiniad clir, strategol ar faterion yn ymwneud â chyfle cyfartal. Dylai aelodau'r Bwrdd osod esiampl ar gydraddoldeb i'r holl staff sy'n gweithio ar eu cyfer a gosod amcanion clir ar gydraddoldeb wrth gyflawni eu gwaith ac o ran y canlyniadau polisi.
7	Rydym yn argymell bod y Cynulliad yn sicrhau bod y system TG Adnoddau Dynol yn gallu cynhyrchu data awdurdodol ynglŷn â chyfansoddiad staff y Cynulliad.

8	<p>Rydym yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn sicrhau cytundeb ynglŷn â'r strategaeth recriwtio a'i bod yn cael ei rhoi yn ei lle cyn gynted â phosib. Rydym yn argymhell ymhellach bod yr Ysgrifennydd Parhaol a Bernard Galton, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Cynulliad a benodwyd yn ddiweddar, yn cyflwyno'r strategaeth er mwyn i ni ei hystyried ac yn trafod eu blaenoriaethau i gynyddu amrywiaeth ar bob lefel o fewn llafurlu'r Cynulliad ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal.</p>
9	<p>Rydym yn argymhell gwerthuso'r strategaeth allgymorth a chyflwyno'r gwerthusiad i'r Pwyllgor hwn ynghyd â strategaeth recriwtio'r Cynulliad y cyfeiriwyd ato yn Argymhelliad 8.</p>
10	<p>Rydym yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn ystyried a ellid defnyddio cyfarwyddwyr anweithredol fel mesur dros dro i gynyddu amrywiaeth o fewn y Bwrdd Gweithredu.</p>
11	<p>Rydym yn argymhell bod hyfforddiant ynglŷn â materion cydraddoldeb yn parhau er mwyn ffurfio rhan allweddol o raglen gynefino'r Cynulliad ar gyfer y staff. Dylai rhaglen barhaus o hyfforddiant yn ymwneud â chydaddoldeb yn benodol gael ei chyflwyno. Dylai'r hyfforddiant gael ei werthuso a'i adolygu'n barhaus.</p>
12	<p>Yn rhan o'i archwiliad blynyddol o gynlluniau perfformiad a datblygiad staff, dylai Grŵp Adnoddau Dynol y Cynulliad asesu priodoldeb yr amcanion cydraddoldeb a'r camau a gymerwyd i'w cyflawni. Yng ngoleuni'r asesiad hwnnw, dylai ddarparu cymorth neu gyfarwyddyd ychwanegol fel y bo angen.</p>
13	<p>Rydym yn argymhell darparu hyfforddiant pellach ar gydraddoldeb ar gyfer Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau penodol. Dylai gael ei gyflwyno mewn sesiynau byr er mwyn cyd-fynd ag amserlen yr Aelodau a dylid ystyried cynnig sesiynau byr ar ddydd Llun neu ddydd Gwener yn etholaethau'r Aelodau. Ni ddylid caniatáu i Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan yng ngweithgareddau panel sy'n gwneud penodiad cyhoeddus oni bai y buont ar gwrs hyfforddiant ar gydraddoldeb.</p>





14	<p>Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi eglurhad ynglŷn â rôl yr Uned Polisi Cydraddoldeb, yn arbennig i bwy y mae'n adrodd ac i bwy y mae'n gyfrifol am roi cyngor. Dylai'r eglurhad hwnnw sicrhau bod cyngor ar gydraddoldeb o'r safon uchaf bosib ar gael i bob Gweinidog, yn ogystal â'r Cynulliad yn gorfforaethol a'r Pwyllgorau. Rydym hefyd yn argymell bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod yr Uned wedi'i staffio'n llawn a bod gan y staff yr arbenigedd priodol a'u bod yn derbyn yr hyfforddiant priodol.</p>
15	<p>Rydym yn argymell y dylai pob Is-adran yn y Cynulliad sicrhau bod un person, ar lefel ddigon uchel, yn gyfrifol am ddelio â materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn holl waith yr Is-adran. Dylai fod yna fyrddau cydraddoldeb ar lefel Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Is-adran.</p>
16	<p>Rydym yn argymell bod adolygiad trylwyr o holl ganllawiau presennol y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb yn cael ei gynnal yn rhan o'r broses o ddatblygu strategaeth gyffredinol. Yn ngoleuni'r adolygiad, dylai'r canllawiau gael eu hadolygu, os yw'n briodol, ac yna dylid hysbysu'r staff ohonynt. Dylai'r canllawiau ar bapurau Pwyllgor a chyflwyniadau Gweinidogion gael eu hadolygu hefyd er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i oblygiadau o safbwynt cyfle cyfartal.</p>
17	<p>Rydym yn argymell adolygu canllawiau ymgynghori'r Cynulliad er mwyn sicrhau eu bod wedi'u seilio'n gadarn ar egwyddorion cyfle cyfartal a'u bod yn delio â'r angen i fynd i'r afael ag amrywiaeth o fewn y cyhoedd yng Nghymru.</p>
18	<p>Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad, wrth ymgynghori, geisio ymgysylltu ag ystod mor eang o unigolion a sefydliadau â phosib. Lle bo mater o bwys arbennig i grŵp lleiafrifol neu grŵp o dan anfantais rhaid cymryd camau i sicrhau y gofynnir iddynt am eu barn ac y gweithredir ar eu barn. Mewn rhai achosion bydd angen meithrin gallu o fewn y gymuned honno er mwyn eu hannog i gymryd rhan yn y broses.</p>

19	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio annog defnyddio asesiadau o anghenion ar sail rhyw a thechnegau gwerthuso cyfranogol wrth ddod o hyd i atebion cymunedol ar gyfer problemau.
20	Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn treialu cyllidebu mewn maes polisi er mwyn asesu lefel y cydraddoldeb mewn dyraniadau ariannol, gyda golwg ar ymestyn y defnydd a wneir ohono drwy'r Cynulliad.
21	Rydym yn argymhell bod Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol yn dod yn Ddangosydd Perfformiad ffurfiol ar gyfer awdurdodau lleol.
22	Rydym yn argymhell bod Erfyn Integreiddio Polisi Llywodraeth Leol yn cael ei adolygu, ac y dylai'r adolygiad sicrhau ei fod yn rhoi'r sylw priodol i faterion yn ymwneud â chydaddoldeb.
23	Rydym yn argymhell bod pecyn o ddulliau gweithredu, rhestr gwirio a chanllawiau ar gydraddoldeb yn cael ei ddatblygu. Dylai gael ei dreialu gan un neu ragor o is-adrannau'r Cynulliad ac yna ei gyflwyno i bob aelod o'r staff.
24	Rydym yn argymhell y dylai adroddiad blynyddol y Cynulliad ar gydraddoldeb ganolbwyntio ar adrodd ar yr amcanion a amlinellwyd yn y strategaeth ar gydraddoldeb. Dylai hefyd gynnwys adroddiadau gan Weinidogion unigol ar yr hyn a gyflawnwyd o fewn eu portffolio; adroddiad gan Bwyllgor y Tŷ ar weithgareddau'r Cynulliad yn gorfforaethol ac adroddiadau ar bolisïau corfforaethol megis Adnoddau Dynol.
25	Rydym yn argymhell y dylid cynnal archwiliad brys ar gydraddoldeb, wedi'i gomisiynu'n allanol a chan neilltuo digon o adnoddau ar ei gyfer, er mwyn darparu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer strategaeth cydraddoldeb. Dylai hefyd ddarparu methodoleg i staff mewnol ei defnyddio er mwyn casglu gwybodaeth gymharol mewn blynyddoedd i ddod ac adolygu a gwerthuso'n rheolaidd hynt hyn o fewn y Cynulliad.



26	<p>Rydym yn argymhell bod pwyllgorau eraill y Cynulliad yn cyflwyno blaenraglenni gwaith strategol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystyried a yw'r flaenraglen waith yn rhoi digon o ystyriaeth i gydraddoldeb ac yn gwneud sylwadau fel y bo'n briodol. Ymhellach, dylai adroddiad blynyddol pob pwyllgor pwnc gynnwys adran yn nodi sut y mae eu gweithgaredd dros y flwyddyn flaenorol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd a bennwyd mewn perthynas â chydraddoldeb yn Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru.</p>
27	<p>Rydym yn argymhell paratoi rhestr wirio syml o gwestiynau, yn seiliedig ar y pecyn canllawiau a awgrymwyd yn argymhelliad 23, i'w defnyddio gan bwyllgorau. Dylai'r rhestr wirio hon gael ei llunio drwy ymgynghori â Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.</p>



Gellir cael rhagor o gopiâu caled o'r ddogfen hon gan:

Lara Date  
Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8155  
E-bost: [equality.com@wales.gsi.gov.uk](mailto:equality.com@wales.gsi.gov.uk)  
Gwefan: <http://www.cymru.gov.uk>